

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig
**Adroddiad ar y rhaglen o'r
newydd gan Lywodraeth Cymru
ar gyfer Dileu TB**

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig
**Adroddiad ar y rhaglen o'r
newydd gan Lywodraeth Cymru
ar gyfer Dileu TB**

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 29 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd, ynni, rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Siân Gwenllian AC
Plaid Cymru
Arfon



Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Huw Irranca-Davies AC
Llafur Cymru
Ogwr



David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Simon Thomas AC
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Jayne Bryant AC
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Mark Reckless AC (Cadeirydd)
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
01. Cylch gorchwyl a methodoleg	7
02. Tystiolaeth ryngwladol	8
03. Dull o'r newydd Llywodraeth Cymru	16
04. Trosglwyddo rhwng gwartheg	18
05. Trosglwyddo drwy fywyd gwyllt.....	26
06. Trefniadau trawsffiniol.....	37
07. Llywodraethu'r rhaglen ddileu	39
08. Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd.....	43
Atodiad A – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor.....	45

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiad targed cenedlaethol i Gymru fod yn swyddogol glir o TB ac egluro'r broses ar gyfer cyflawni hyn.

.....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru bennu targedau interim ar gyfer dileu'r clefyd ym mhob un o'r tair rhanbarth TB – uchel, canolradd ac isel.

.....Tudalen 17

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio ymhellach i'r risgiau posibl fod TB yn cael ei ledaenu oherwydd cynnydd ym maint gyroedd ac arferion rheoli slyri. Drwy gynnwys cyngor ar y ddau fater hwn mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru, gellid gwella'r cymorth a gynigir i ffermwyr wrth ymdrin â'r clefyd hwn.Tudalen 25

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gadw golwg ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf am brofion TB buchol ac archwilio pob opsiwn ar gyfer cynnal profion effeithiol sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd.Tudalen 25

Argymhelliad 5. Cyhyd ag y bo modd, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys y diwydiant yn y gwaith o ddatblygu pecyn bioddiogelwch ar-lein, a hynny er mwyn sicrhau y gall ffermwyr Cymru ddatblygu mesurau'n ymwneud yn benodol â ffermydd a fydd yn ychwanegu gwerth at yr ymdrechion i reoli a dileu'r clefyd.

.....Tudalen 25

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i hybu trefniadau Prynu Gwybodus, sef masnachu yn seiliedig ar risg. Dylai system fasnachu yn seiliedig ar risg gael ei chyflwyno'n wirfoddol i ddechrau yn y diwydiant a'r marchnadoedd da byw. Dylid adolygu'r system yn gyson ac, os bydd angen, dylid ei gwneud yn orfodol.Tudalen 25

Argymhelliad 7. Rhaid defnyddio dulliau gwyddonol o fonitro ac adolygu cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen i symud moch daear penodol mewn achosion o yrroedd sydd â TB cronig. Rhaid addasu neu atal y rhaglen os nad yw'n rhwystro TB buchol rhag cael ei drosglwyddo o fywyd gwyllt i wartheg. Rhaid i unrhyw gamau a gymerir fel rhan o gynllun treialu gynnwys ffiniau caled a mesurau digonol i ddiogelu rhag y risg y bydd y cymunedau bywyd gwyllt yn aflonyddu.Tudalen 36

Argymhelliad 8. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru baratoi adroddiad i'r Pwyllgor ddeuddeg mis ar ôl i ganlyniadau'r rhaglen i symud moch daear penodol ddechrau dod i'r amlwg. Rydym yn disgwyl i ddata Llywodraeth Cymru fod ar gael i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn prosesau tryloyw wrth iddi wneud penderfyniadau ac adolygu.Tudalen 36

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru a Defra sicrhau bod y canllawiau cadarn ar waith i hwyluso cydweithrediad trawsffiniol, yn enwedig mewn perthynas â mesurau rheoli bywyd gwylt, gan gynnwys symud a difa moch daear. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Defra adolygu'r canllawiau hyn yn gyson.Tudalen 38

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru dalu swm rhesymol o iawndal i ffermwyr am wartheg a gaiff eu lladd fel rhan o'r rhaglen i ddileu TB. Dylai'r swm hwn barhau i gael ei adolygu, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.Tudalen 42

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cyllid a geir gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd ar gyfer profion TB buchol a mesurau eraill, yn cael ei warantu o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.Tudalen 44

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrwydd ar unwaith gan Lywodraeth y DU na fydd statws TB buchol gweddill y DU yn effeithio ar y gallu i barhau i fanteisio ar farchnad sengl yr UE.Tudalen 44

01. Cylch gorchwyl a methodoleg

Cyflwyniad

1. Cafodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu ym mis Mehefin 2016. Oherwydd ei effaith sylweddol ar les anifeiliaid, lles ffermwyr a hyfywedd busnesau fferm, cafodd y mater o fynd i'r afael â TB buchol (twbercwlosis buchol) ei nodi gan Aelodau'r Pwyllgor fel blaenoriaeth ar gyfer y diwydiant amaeth yng Nghymru.
2. Ar ôl cyhoeddi dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Strategaeth o'r newydd ar gyfer Dileu TB', penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad byr yn ei dymor cyntaf i edrych ar effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ac ystyried cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Cylch gorchwyl

3. Roedd yr ymchwiliad hwn yn ceisio deall y dystiolaeth wyddonol a'r materion ehangach ynghylch mynd i'r afael â TB buchol. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:
 - Asesu'r dystiolaeth y tu ôl i'r dulliau rheoli a dileu a nodir yn rhaglen o'r newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu TB buchol drwy gymhariaeth â dulliau gweithredu y tu allan i Gymru.
 - Asesu a oes trefniadau monitro a gwerthuso digonol ar waith i sicrhau y gellir dangos effeithiolrwydd a gwerth am arian y rhaglen yn y dyfodol.

Dull

4. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn:
 - Yr Athro Rosie Woodroffe, Sefydliad Sŵoleg;
 - Dr Gareth Enticott, Prifysgol Caerdydd;
 - Dr Neil Paton, Llywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Milfeddygon Prydain;
 - Dr Paul Livingstone, Cyn-reolwr Ymchwil a Dileu TB, Seland Newydd;
 - Dr Nick Fenwick a Dr Hazel Wright, Undeb Amaethwyr Cymru;
 - Stephen James a Peter Howells, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr Cymru;
 - James Byrne a Lizzie Wilberforce, Ymddiriedolaethau Natur Cymru;
 - Dr Malla Hovi, yr Asiantaeth Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid;
 - Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru; ac
 - Yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru.
5. Ym mis Ionawr 2017 aeth cynrychiolwyr o'r Pwyllgor i ymweld ag Iwerddon a chwrdd â Michael Creed TD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr a Martin Blake, Prif Swyddog Milfeddygol Iwerddon a swyddogion.

02. Tystiolaeth ryngwladol

Bydd y bennod hon yn archwilio arferion ar gyfer mynd i'r afael â TB buchol sydd wedi cael eu defnyddio ledled y DU a thramor, ac yn amlinellu canlyniadau'r arferion hyn.

6. Mae TB buchol (twbercwlosis buchol) yn glefyd heintus a chronig a achosir gan *Mycobacterium bovis* (M.bovis) ac mae fel arfer yn effeithio ar ysgyfaint a nodau lymff gwartheg. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gwartheg sydd wedi'u heintio yn gallu trosglwyddo'r clefyd cyn eu bod yn dangos arwyddion o fod yn sâl, a all fod sawl mis ar ôl iddynt gael eu heintio. Felly, er mwyn rheoli TB, rhaid canfod a difa gwartheg sydd wedi'u heintio cyn gynted â phosibl. Er mai gwartheg a moch daear yw'r prif anifeiliaid sy'n cario'r clefyd yn y DU, gall camelidau, ceirw, geifr ac anifeiliaid domestig hefyd ei ddal.

7. Mae adroddiad 2014 y Comisiwn Ewropeaidd¹ ar nifer yr achosion o TB buchol yn dangos darlun cymysg ar draws Ewrop, gyda'r Alban, ers mis Medi 2009, gyda statws swyddogol glir o TB buchol. Yn unol ag Erthygl 8 o Gyfarwyddeb 64/432/EEC, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau roi manylion am yr achosion o dwbercwlosis buchol i'r Comisiwn erbyn 31 Mai bob blwyddyn. Mae Cynllun Dileu TB y DU ar gyfer 2017 wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd, fel sy'n ofynnol yng Nghyfarwyddeb yr UE 77/391.²

Lloegr

8. Yn 2014 cyhoeddodd Defra Strategaeth ar gyfer sicrhau statws swyddogol glir o TB buchol ar gyfer Lloegr.³ Mae hyn yn pennu targed o 2038 i Loegr gael statws swyddogol glir o TB buchol, gyda tharged interim ar gyfer gogledd a dwyrain Lloegr erbyn 2025. Mae dull parth yn cael ei ddefnyddio, gyda thri math o ardal: Risg Uchel, Risg Isel, ac Ardal Ymylol sy'n ardal glustogi rhwng ardaloedd risg isel ac uchel. Mae Cymru yn ffinio â thair ardal Risg Uchel (Swydd Amwythig, Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw) ac un ardal Ymylol (Swydd Gaer). Defnyddir amryw fesurau yn yr holl ardaloedd, ynghyd â nifer o fesurau ychwanegol mewn ardaloedd risg penodol, gan gynnwys cynlluniau peilot i ddifa moch daear mewn ardaloedd Risg Uchel.

9. Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor gan Dr Malla Hovi, Pennaeth Tîm Tystiolaeth TB Buchol yr Asiantaeth Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid. Siaradodd Dr Malla Hovi gyda'r Pwyllgor am yr hyn y mae Defra yn ei ystyried i fod yn gynnydd llwyddiannus ers 2014, yn enwedig mewn perthynas â'r ardal Risg Isel sy'n cwmpasu dros hanner yr arwynebedd tir yn Lloegr a thua 43 y cant o'r holl yrruedd yn Lloegr.

10. O ystyried cyffredinolrwydd a nifer y gwartheg yn yr ardal Risg Isel, eglurodd mai bwriad Defra yw cyflwyno cais i'r Comisiwn yr haf hwn ar gyfer statws swyddogol glir o TB buchol yn yr ardal hon. Eglurodd Dr Hovi fod Defra wedi bod yn dysgu o brofiad llwyddiannus yr Alban yn gwneud cais am y statws hwn; er enghraifft, gan adlewyrchu safonau ac arferion megis profi ar ôl symud a phrofi gwyliadwriaeth bob pedair blynedd. Eglurodd Dr Hovi fod y gyfundrefn o gynnal profion ar wartheg wedi'i thynhau mewn Ardaloedd Ymylol sy'n cynnwys tua 7 y cant o yrruedd Lloegr, ac y dechreuwyd cynnal profion bob chwe mis yn rhannau risg uchel yr Ardal Ymylol. Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd hefyd at brofiad Lloegr o ran cyflwyno dull rhanbarthol o weithredu:

¹ https://ec.europa.eu/food/sites/food/files/animals/docs/la_bovine_final_report_2014.pdf

² <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/en/ALL/?uri=CELEX:31977L0391>

³ www.gov.uk/government/publications/a-strategy-for-achieving-officially-bovine-tuberculosis-free-status-for-england

“In terms of zoning the country, there was enormous opposition initially from the cattle industry, and there was a very strong feeling that everybody wanted a level playing field. We just had to go back and say, ‘In disease control, you can’t have a level playing field’ ... High risk is high risk and you have to contain and mitigate against that and low risk, you want to protect those farmers. ... So, people do change their attitudes ... we, as the veterinary advisers, need to give advice that is sound from a disease control point of view and then try and sell it to all and sundry.”⁴

11. Ar 30 Awst 2016, cyhoeddodd Defra saith ardal difa newydd yng Nghernyw, Dyfnaint, Dorset, Swydd Gaerloyw a Swydd Henffordd. Mae’r ardaloedd hyn yn ychwanegol at yr ardaloedd a bennwyd eisoes yn Swydd Gaerloyw, Gwlad yr Haf a Dorset. Bydd difa yn yr ardaloedd newydd yn digwydd dros gyfnod o bedair blynedd rhwng 1 Mehefin a 31 Ionawr bob blwyddyn. Mewn perthynas â’r cyhoeddiad hwn, dywedodd George Eustice AS, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd:

“The veterinary advice and the experience of other countries is clear—we will not be able to eradicate this disease unless we also tackle the reservoir of the disease in the badger population as well as cattle.”⁵

12. Hefyd, mewn perthynas â’r datganiad, **dywedodd** Nigel Gibbens, Prif Swyddog Milfeddygol y DU:

“Proactive badger control is currently the best available option and the licensing of further areas is necessary to realise disease control benefits at regional rather than at local levels.”⁶

13. Ers 2013, mae moch daear wedi cael eu difa o dan drwydded mewn ardaloedd lle mae achosion uchel o TB mewn gwartheg. Eglurodd Dr Hovi fod y trwyddedau yn cael eu rhoi gan Natural England i gwmnïau difa, gan fod y broses ddifa yn Lloegr yn cael ei harwain gan y diwydiant. Eglurodd fod ffiniau caled ar gyfer yr ardal ddifa yn cael eu hystyried yn y broses drwyddedu er mwyn lliniaru effaith aflonyddu. Mae hyn yn cyfeirio at ddifa sy’n arwain at gynnydd yn y gyfran o foch daear sydd wedi’u heintio â TB o ganlyniad i amharu ar eu hymddygiad cymdeithasol, gyda phob mochyn daear sy’n goroesi yn fwy heintus gan ei fod yn fwy tebygol o gael TB. Dywedodd:

“At the moment, the policy is that anywhere where there is badger-related TB, if we have evidence of badger-related TB and where prevalence is very high in cattle, and anywhere in the high-risk area, badger culling will be licensed as long as the other licensing conditions – hard borders, biosecurity levels, no overdue testing among herds, access to adequate amount of land in the cull area et cetera ... are met.”⁷

Adroddiad Krebs

14. Ym 1996 gofynnodd Llywodraeth y DU i’r Arglwydd Krebs adolygu corff o wybodaeth wyddonol yn ymwneud â TB buchol. Cyhoeddodd ei adroddiad⁸ ym mis Rhagfyr 1997, gan ddod i’r casgliad, er

⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 420

⁵ www.gov.uk/government/news/further-measures-to-eradicate-bovine-tb

⁶ ibid

⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 395

⁸ <http://www.bovinetb.info/docs/krebs.pdf>

bod moch daear yn ffynhonnell sylweddol o haint mewn gwartheg, oherwydd diffyg tystiolaeth, nid oedd yn bosibl mesur y lefel lle mai moch daear oedd yn gyfrifol. Roedd yn argymhell casglu data drwy Hap-dreial Difa Moch Daear i gymharu difa moch daear yn rhagweithiol, difa adweithiol ar ôl canfod TB mewn gwartheg, a dim difa. Roedd yr argymhellion eraill yn yr adroddiad yn cynnwys yr angen i ffermwyr fynd ati i wahanu gwartheg a moch daear, ynghyd â datblygu brechlyn gwartheg. Dywedodd yr Arglwydd Krebs hefyd y byddai astudiaeth o'r fath yn gyfle i'r llywodraeth gynnal dadansoddiad cost a budd o ladd moch daear er mwyn rheoli TB buchol mewn gwartheg.

Y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg

15. Mewn ymateb i adroddiad Krebs, sefydlwyd yr Hap-dreial Difa Moch Daear ym 1998, gyda Grŵp Gwyddonol Annibynnol a gadeiriwyd gan yr Athro John Bourne. Roedd yr Hap-dreial Difa Moch Daear yn ymchwilio i effaith difa 10,979 o foch daear. Cyflwynodd ei adroddiad terfynol 'Bovine TB: The Scientific Evidence' ym mis Mehefin 2007, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

“First, while badgers are clearly a source of cattle TB, careful evaluation of our own and others’ data indicates that badger culling can make no meaningful contribution to cattle TB control in Britain. Indeed, some policies under consideration are likely to make matters worse rather than better. Second, weaknesses in cattle testing regimes mean that cattle themselves contribute significantly to the persistence and spread of disease in all areas where TB occurs, and in some parts of Britain are likely to be the main source of infection. Scientific findings indicate that the rising incidence of disease can be reversed, and geographical spread contained, by the rigid application of cattle-based control measures alone.”⁹

Adroddiad Syr King

16. Ar ôl cyhoeddi'r ddau adroddiad (yr Hap-dreial Difa Moch Daear a'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol), cyhoeddodd Syr David King, Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU, adroddiad ar TB buchol mewn moch daear a gwartheg ym mis Gorffennaf 2007.¹⁰ Roedd ei ganfyddiadau yn gwrth-ddweud adroddiad y Grŵp Gwyddonol Annibynnol, ac yn dweud mai symud moch daear yn y byrdymor oedd y dewis gorau i leihau cronfa'r haint mewn bywyd gwylt, ac y dylai ddigwydd yn ogystal â mesurau rheoli gwartheg, gyda ffyrdd amgen neu ychwanegol megis brechu yn cael eu hystyried yn y tymor hwy.

Yr ymateb i adroddiad Syr King

17. Mewn ymateb i adroddiad Syr King, dywedodd yr Athro John Bourne a chwe chyn-aelod arall o'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol, a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2007:

“ISG 3: We believe that a key reason for these differing conclusions is that King et al. (2007) were constrained within their terms of reference, which prevented them from fully evaluating policy options ... Unfortunately, the complex relationship between badger abundance and cattle TB risks, as revealed by our

⁹

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090330154646/www.defra.gov.uk/animalh/tb/isg/pdf/final_report.pdf

¹⁰

<http://collections.europarchive.org/tna/20081027092120/http://defra.gov.uk/animalh/tb/pdf/badgersreport-king.pdf>

work, means that ‘economic [and] practical issues’... are absolutely critical in determining whether culling would reduce or increase the incidence of cattle TB. By excluding consideration of such issues from Sir David King’s remit, Ministers severely hampered his ability to inform policy development.

ISG 5: Given these concerns, we are not persuaded by the arguments in King et al.’s (2007) report and stand by our published recommendations concerning the control of cattle TB in Britain.”¹¹

Y sail dros benderfyniadau Defra

18. Mae dogfen Defra yn 2011 “The Government’s policy on Bovine TB and badger control in England”¹² yn egluro’r hyn sydd wrth wraidd penderfyniadau’r llywodraeth ar ôl cael canlyniadau’r Hap-dreial Difa Moch Daear. Wrth gyfeirio at y gwaith monitro parhaus ers diwedd yr Hap-dreial, dywedir yn yr adroddiad fod effaith gadarnhaol y broses ddifa ar yr achosion o’r haint mewn gyrroedd wedi parhau am o leiaf chwe blynedd ar ôl i’r difa ddod i ben, a bod yr effaith negyddol ar yrroedd ar dir cyfagos y cadarnhawyd eu bod wedi’u heintio yn diflannu’n gymharol gyflym, rhwng 12 ac 18 mis ar ôl i’r difa ddod i ben. Yn 2016, cyhoeddodd Defra asesiad gwerth am arian o’r polisi rheoli moch daear presennol yn Lloegr, a ganfu fel a ganlyn:

“The total quantified benefits are estimated at £2.59m (range between £0.69m and £4.16m) per area over four years in the central case, based on the impact of badger control as observed in the RBCT...In the central case the benefits are expected to be greater than the costs by around £0.56m per area, but with considerable uncertainty.”¹³

Gweriniaeth Iwerddon

19. Mae cynllun dileu TB buchol cenedlaethol wedi bod ar waith yng Ngweriniaeth Iwerddon ers 1954. Cynllun gwirfoddol oedd hwn i ddechrau ond daeth yn orfodol ym 1957. Er gwaethaf y rhaglen ddileu barhaus, nid yw Iwerddon yn glir o TB buchol. Ymhlith yr ardaloedd lle mae nifer fawr o achosion o’r clefyd mae Wicklow, Wexford a Westmeath. Mewn erthygl yn yr Irish Farmers Journal (27 Hydref 2016) soniwyd fod y ffigurau rhwng trydydd chwarter 2015 a 2016 yn dangos cynnydd o 6 y cant yn nifer y gwartheg a adweithiodd i TB buchol.¹⁴

20. Mae polisi presennol Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr Llywodraeth Iwerddon wedi’i gynnwys yn y rhaglen dileu TB ar gyfer 2016-2018.¹⁵ Mae’n nodi bod y rhaglen bresennol yn effeithiol, ac er bod posibilrwydd y caiff ei diwygio yn sgil datblygiadau ac ymchwil wyddonol sydd ar y gweill, mae modd iddi gyrraedd ei tharged i ddileu’r clefyd erbyn 2030.

21. Mae’r mesurau rheoli moch daear yn rhaglen Iwerddon yn cynnwys y canlynol:

¹¹ <http://collections.europarchive.org/tna/20081027092120/http://defra.gov.uk/animalh/tb/isg/pdf/isg-responsetosirdking.pdf>

¹² www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69463/pb13691-bovinetb-policy-statement.pdf

¹³ www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/548748/badger-control-policy-value-for-money-160824.pdf

¹⁴ www.farmersjournal.ie/no-recent-progress-on-tb-232501

¹⁵

www.agriculture.gov.ie/animalhealthwelfare/diseasecontrol/bovinetberadicationandbrucellosismonitoringscheme/diseaseeradicationtb/2016-2018eradicationprogrammeformbovinetb-ireland/

- Dal, brechu (pigiad BCG) a rhyddhau moch daear lle mae mesurau rheoli poblogaeth wedi bod ar waith a lle mae lefelau'r clefyd mewn moch daear a gwartheg sy'n rhannu'r un diriogaeth wedi lleihau (gwaith symud wedi'i gynnal am o leiaf dair blynedd); a
- Brechiad drwy'r geg mewn ardaloedd nad ydynt erioed wedi bod yn destun difa a lle cynhaliwyd gwaith symud am o leiaf dair blynedd (os nad dyna'r achos, bydd brechu gyda chwistrelliad BCG yn parhau).

22. Yn 2013, dechreuwyd cynnal treialon brechu moch daear a disgwylir adroddiad arnynt yn 2018. Mae Cynllun Treialu Kilkenny, er enghraifft, yn cynnwys trapio, brechu, nodi a monitro drwy ail-ddal er mwyn edrych ar yr amcangyfrifon o boblogaethau moch daear a pha mor effeithiol yw eu trapio. Yn ôl erthygl yn y Farmers' Union Journal (1 Rhagfyr 2016) ni fydd rhaglen frechu genedlaethol ar gyfer moch daear tan 2018 fan bellaf oherwydd prinder y brechlyn.¹⁶

23. O ran y strategaeth difa moch daear, sydd wedi bod ar waith ers dros ddegawd, nodir fel a ganlyn yn y ddogfen sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Dileu TB Buchol:

“Ireland believes that the badger culling strategy, which is aimed at addressing a major source of the disease, has been a key factor in bringing about the substantial reduction in the incidence of the disease in cattle since 2008.”¹⁷

24. Yr unig leoedd y caiff moch daear eu dal yw ardaloedd lle canfuwyd achosion difrifol o TB buchol mewn gyroedd o wartheg a dim ond lle mae ymchwiliad epidemiolegol gan Arolygiaeth Filfeddygol yr Adran yn canfod mai moch daear yw ffynhonnell debygol yr haint. I ddechrau, caiff moch daear eu dal dan drwydded gan gontractwyr hyfforddedig y Gwasanaeth Cymorth i Ffermydd a defnyddir maglau a gynlluniwyd yn benodol. Rhoddir y drwydded gan y Gwasanaeth Parciau Cenedlaethol a Bywyd Gwyllt. Caiff y broses ei monitro a'i goruchwyllo gan staff yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr. Yna, caiff y moch daear eu saethu o dan drwydded.

25. Yn ymateb Defra i gais Rhyddid Gwybodaeth yn 2014¹⁸ ynglŷn a'i dadansoddiad o'r polisi rheoli moch daear yn Iwerddon mae'n dweud ei bod yn amlwg bod cysylltiad rhwng y dirywiad yn yr achosion o TB mewn gwartheg yn Iwerddon ac effeithiolrwydd y broses ddifa.

26. Roedd Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr Llywodraeth Iwerddon wedi tynnu sylw'r Aelodau at astudiaeth a adolygwyd gan gyfoedion a gynhaliwyd yn Swydd Laois¹⁹ lle'r ystyriwyd defnyddio rhaglen symud moch daear wedi'i thargedu (difa adweithiol). Archwiliwyd effaith y gweithgareddau symud moch daear ar ddeinameg y cymunedau o foch daear ac effeithiau'r symud ar y lefelau o TB buchol mewn gyroedd o wartheg. Canfu'r astudiaeth hon nad oedd tystiolaeth o aflonyddu (a elwir yn 'badger social disruption' yn y papur) a bod symud moch daear mewn dull a dargedwyd yn cael effaith fuddiol ar risg TB buchol mewn gwartheg.

¹⁶ www.farmersjournal.ie/departments-plans-to-replace-badger-culling-with-vaccination-programme-239739

¹⁷

www.agriculture.gov.ie/animalhealthwelfare/diseasecontrol/bovinetberadicationandbrucellosismonitoringscheme/wildlifepolicybadgers/

¹⁸

www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/302216/RFI6387_badger_culling_in_Ireland.pdf

¹⁹ Olea-Popelka, F.J. et al. (2009) *Targeted badger removal and the subsequent risk of bovine tuberculosis in cattle herds in county Laois, Ireland. Preventative Veterinary Medicine.* Rhifyn 88, paragraffau 178-184.

Gogledd Iwerddon

27. Ar 15 Rhagfyr 2016, lansiodd Grŵp Partneriaeth Strategol TB y Strategaeth Dileu TB Buchol ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r ddogfen yn nodi fel a ganlyn:

“This Strategy is intended to set us on a decreasing trajectory - and over the next 3 or 4 decades see the disease finally eradicated from NI.”²⁰

28. Nod y strategaeth yw cael gward ar TB buchol mewn gwartheg a chyfrannu at iechyd y boblogaeth o foch daear. Cynigir strwythur lywodraethu newydd sy'n cynnwys:

- corff o arbenigwyr sy'n gweithredu dros Ogledd Iwerddon, y Bartneriaeth Dileu TB, i weithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu cyfeiriad strategol;
- nifer fach o Bartneriaethau Dileu Rhanbarthol; a
- thimau ymateb lleol i'r clefyd.

29. Bydd y Bartneriaeth Dileu TB yn adolygu'r Strategaeth Ddileu yn ffurfiol bob pum mlynedd o leiaf, ac yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog perthnasol.

30. O ran bywyd gwyllt, yn enwedig moch daear, mae'r strategaeth yn argymhell brechu moch daear yn gyffredinol gydag abwyd i'w fwyta, cyn gynted ag y bydd wedi'i ddatblygu ac ar gael i'w ddefnyddio. Awgrymir hefyd fod moch daear yn cael eu symud yn strategol gan ddefnyddio ardaloedd ymyrryd penodol. Mae'r strategaeth yn nodi:

“We recommend that a badger control policy should be implemented to reduce the overall level of infection in the badger population ... The intervention should include the culling of badgers in areas of high levels of bTB in cattle and, in order to mitigate the risks associated with the perturbation effect, the vaccination of badgers, combined with culling of test positive badgers in a surrounding area.”²¹

31. Mae ardal ymyrryd moch daear yn cynnwys parth craidd gydag ardal glustogi allanol. Y sefyllfa leol o ran y clefyd, topograffi ac ecoleg bywyd gwyllt fydd yn pennu maint y parth craidd. Bydd cyfanswm yr arwynebedd ymyrryd mor fawr â phosibl; caiff hyn ei nodi fel mwy na 100 km sgwâr. Rhaid i'r meysydd ymyrryd ystyried ffiniau caled, fel afonydd mawr, llynnoedd, mynyddoedd neu ffyrdd mawr. Os nad yw'r rhain i'w cael, rhaid sefydlu ardal glustogi o hyd at 1,500 metr o amgylch cyrion y parth craidd.

Seland Newydd

32. Yn sgil pryderon ffermwyr llaeth a ffermwyr ceirw bod possums ac anifeiliaid gwyllt eraill yn gyfrifol am ledaenu TB buchol, mae Seland Newydd wedi bod ag ymgyrch dileu TB buchol cenedlaethol a gorfodol mewn gyrrroedd o wartheg ers 1970, ac mewn gyrrroedd o geirw ers 1990. Ym mis Mai 2016, cyflwynwyd Cynllun Rheoli Plâu Cenedlaethol (cynllun TB) newydd gyda'r nod o ddileu TB buchol yn llwyr o fewn deugain mlynedd. Mae cred Llywodraeth Seland Newydd fod hyn yn bosibl yn seiliedig ar waith blaenorol mewn ardaloedd “tystiolaeth o'r cydsyniad”²² lle llwyddwyd i ddileu'r

²⁰ www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/daera/bovine-tuberculosis-eradication-strategy.pdf

²¹ Ibid, tt 49

²² [Adolygiad o'r Cynllun TB Cenedlaethol, Seland Newydd](#)

clefyd. Targedau'r cynllun yw dileu TB buchol o wartheg a cheirw erbyn 2026, o'r cymunedau possums gwyllt erbyn 2040, a'i ddileu yn fiolegol erbyn 2055.

33. Mae'r asesiadau risg a ddefnyddir i bennu pa yrroedd y mae angen eu profi yn ystyried lleoliad (risg sy'n deillio o fywyd gwyllt), hanes (risg gweddilliol o'r haint TB mewn gyr) a symudiadau (nifer, ffynhonnell a'r math o symudiadau i mewn i'r gyr).

34. Mae'r dull o reoli plâu yn seiliedig ar dri ffactor – risg i yrroedd (nifer y possums a phresenoldeb TB mewn bywyd gwyllt), amser (ardaloedd lle bydd y broses ddileu yn faith ac ardaloedd lle bydd y broses ddileu yn weddol gyflym) a'r gyfradd heintio (ardaloedd lle mae achosion mynych o'r haint).

35. Mae'r dull newydd hwn o weithredu yn cynnwys strategaeth ddileu genedlaethol yn hytrach na'r dull blaenorol o rannu'n barthau (atal gyrroedd sydd wedi'u heintio, diogelu ardaloedd rhydd, a dileu). O fewn y dull cenedlaethol, mae ardaloedd sydd â chynefinoedd a phatrymau heintio tebyg yn cael eu grwpio yn ardaloedd rheoli ac maent yn dilyn yr un cynllun gweithredu.

36. Dywedodd Dr Paul Livingstone, cyn-reolwr Ymchwil a Dileu TB Bwrdd Iechyd Anifeiliaid Seland Newydd wrth y Pwyllgor fod Seland Newydd wedi dechrau rheoli possums yn y 1970au ac, o ganlyniad i hyn, wedi gweld gostyngiad dramatig yn yr achosion o TB mewn gwartheg. Dywedodd mai anifeiliaid gwyllt (possums a rhai ffuredau) sy'n gyfrifol am tua 90 y cant o yrroedd sy'n cael eu heintio o'r newydd. Dywedodd:

“Getting TB out of farm herds in New Zealand is relatively easy. By testing, slaughter and ancillary tests such as the gamma interferon test, we have a sensitivity of somewhere around 93 or 95 per cent. So with repeat testing, we quite quickly get TB out of infected herds. The problem that occurs is that you've got the reinfection from TB in wild animals, and we have TB in possums.”²³

37. O ran rheoli'r clefyd mewn possums gwyllt, eglurodd y defnyddiwyd gwenwyn ar raddfa fawr a bod hynny wedi arwain at ostyngiad cyffredinol yn eu nifer:

“We've taken them down to very low densities, which prevents TB from cycling within the population that's left, and therefore the disease drops out ... perturbation is not a problem. The density is too low for possums to perturbate.”²⁴

38. O ran gwrthwynebiad y cyhoedd i'r dulliau rheoli bywyd gwyllt, eglurodd Dr Paul Livingstone fod y possum yn rhywogaeth estron ac yn gyffredinol roedd pobl o'r farn bod lleihau eu niferoedd yn beth cadarnhaol. Dywedodd:

“So, we've introduced possums, introduced rats, introduced stoats, introduced ferrets, and these animals are all preying on our native birds. So, as a consequence, native bird populations are dropping down, and native insects are dropping down, because they're being eaten by these animals. So, anything we do that destroys possums also destroys rats and there's secondary poisoning of stoats. So, we cut out that predator group and our native bird

²³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 22

²⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 45

population increases. So, there's a conservation benefit that we achieve from the TB control programme, as well as killing TB possums."²⁵

²⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 42

03. Dull o'r newydd Llywodraeth Cymru

39. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad ar 'Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB'²⁶ ym mis Hydref 2016. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 10 Ebrill 2017.²⁷

40. Egwyddor allweddol dull Llywodraeth Cymru i ddileu TB buchol yw symud i ddull rhanbarthol, gyda'r nod o fynd i'r afael â gwahanol yrwyr y clefyd mewn ardaloedd sydd wedi'u categorio fel ardaloedd TB uchel, canolradd ac isel. Mae'r dull hwn yn anelu at liniaru'r lledaeniad o'r clefyd rhwng gwartheg ac yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â rheolaethau bywyd gwyllt ac iawndal.

41. Yn wahanol i Loegr, Iwerddon a Seland Newydd, nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu amserlen ar gyfer dileu TB yng Nghymru, nac ar gyfer ei ddileu yn unrhyw un o'r tair ardal (uchel, canolradd ac isel).

Ein safbwynt ni

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae TB buchol wedi'i chael ar ffermwyr llaeth a chynhyrchwyr cig eidion yng Nghymru - nid yn unig mewn termau ariannol ond yn ehangach ar y gymuned ffermio.

Cyrhaeddodd nifer yr achosion newydd mewn gyrraedd ei anterth yn 2008-9, ond ers hynny bu gostyngiad cyffredinol.²⁸ Gwariodd Llywodraeth Cymru £26,413,000 ar fynd i'r afael â'r clefyd yn 2015/16, a oedd yn cynnwys arian gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae hon yn broblem gostus a chymhleth i ffermwyr yng Nghymru ac er bod Llywodraeth Cymru wedi cael ei chanmol am leihau nifer yr achosion o heintiau TB buchol, mae llawer i'w wneud cyn y gellir sicrhau statws swyddogol glir o TB.

Yn ganolog i'r ymchwiliad hwn mae'r Pwyllgor yn archwilio'r sail dystiolaeth ryngwladol o ran mynd i'r afael â TB buchol, i archwilio mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith a'u heffaith, ac ystyried yr hyn y gall Cymru ei ddysgu o ddatblygiadau o'r fath. At hynny, siaradodd y Pwyllgor yn uniongyrchol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghylch arferion yn y DU, Iwerddon ac yn rhyngwladol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a'r dulliau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull newydd a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dull yn cyflwyno fframwaith rhanbarthol ac yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth wyddonol ac asesiad risg milfeddygol. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- dull rhanbarthol o ran dileu TB;
- profion gwyliadwriaeth o yrroedd o wartheg;
- ystod eang o fesurau rheoli gwartheg fel profion cyn symud;
- cyfyngiadau symud ar yrroedd sydd wedi'u heintio;
- masnachu yn seiliedig ar risg;
- lladd anifeiliaid sydd wedi'u heintio;

²⁶ Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB

²⁷ <https://consultations.gov.wales/consultations/refreshed-tb-eradication-programme>

²⁸ Ystadegau Cenedlathol Defra, Rhagfyr 2016

- mynd i'r afael â chronfa'r haint mewn bywyd gwyllt drwy symud moch daear sydd wedi'u heintio o dan amgylchiadau penodol; a

- brechu moch daear.

Cred y Pwyllgor fod defnyddio dull rhanbarthol yn ffordd briodol o ymdrin â chlefyd sydd wedi cael effaith mor ddinistriol ar gymunedau gwledig a'r sector amaethyddol yng Nghymru. Cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno a chyhoeddi targedau ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru.

Yn y penodau a ganlyn o'r adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn nodi yn fanylach ei farn ar rai o'r materion allweddol sy'n ymwneud â TB buchol.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiad targed cenedlaethol i Gymru fod yn swyddogol glir o TB ac egluro'r broses ar gyfer cyflawni hyn.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru bennu targedau interim ar gyfer dileu'r clefyd ym mhob un o'r tair rhanbarth TB – uchel, canolradd ac isel.

04. Trosglwyddo rhwng gwartheg

Yn y bennod hon rydym yn ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru leihau TB buchol sy'n cael ei drosglwyddo ymhlith gwartheg. Clywodd y Pwyllgor gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys: ymchwilwyr academiaidd sydd wedi astudio'r pwnc hwn; cynrychiolwyr y diwydiant ffermio a'r rheini sy'n cynrychioli cadwraeth bywyd gwyllt.

42. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn dweud mai gwartheg oedd yn bennaf gyfrifol am gario TB buchol, a soniodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain fod y gyfradd drosglwyddo rhwng gwartheg yn 50 y cant.

43. Yn ei dogfen ymgynghori, roedd Llywodraeth Cymru yn cynnig mesurau rheoli a gwyliadwriaeth i fynd i'r afael â'r ffordd y mae TB buchol yn lledaenu, o fewn a rhwng gyrroedd, sef:

- Newid y dulliau o reoli gwartheg a'u symudiadau i sicrhau eu bod yn ddigonol i atal clefyd rhag cyrraedd yr ardal a dileu'r lefel isel o haint sy'n bodoli ar hyn o bryd;
- Nodi gwartheg yn gynnar drwy brofion; a
- Symud gwartheg sydd wedi'u heintio er mwyn atal yr haint rhag lledaenu o fewn y gyr ac i yrrroedd eraill.

44. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y brif ffordd y mae haint TB yn yr ardaloedd 'risg uchel' a 'risg canolradd' yn deillio o symud gwartheg, yn enwedig gwartheg a brynir. Mae ei chynigion ar gyfer ymdrin â hyn yn cynnwys:

- gwella bioddiogelwch;
- lleihau iawndal ar gyfer achosion cronig mewn gyrroedd, sy'n cynnwys symud gwartheg sydd â gwahanol statws clefyd rhwng unedau yn yr un gyr;
- tynhau caniatâd ar gyfer Unedau Gorffennu Eithriedig;
- cefnogi'r prosiect Prynu Gwybodus er mwyn galluogi marchnadoedd da byw i arddangos gwybodaeth am TB ar y gwartheg sy'n cael eu gwerthu.²⁹

45. I gefnogi'r prosiect Prynu Gwybodus, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar sut y mae Masnachu ar Sail Risg wedi cefnogi'r broses o ddileu TB buchol o Awstralia. Yn y tymor hwy, mae'n bwriadu cyflwyno system debyg yng Nghymru mewn cydweithrediad â'r diwydiant. Eglurodd Dr Enticott, er bod masnachu ar sail risg yn wirfoddol yn Seland Newydd, ei fod wedi cael ei greu gan ffermwyr i gymell prynu ac i wobrwyo arferion da a'i fod yn hunan-orfodol.³⁰

46. Ym mis Tachwedd 2016, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet y Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (CHeCS)³¹ ar y cyd â Lloegr. Prif amcanion CHeCS yw hybu gwelliannau i iechyd a lles gwartheg, a darparu safonau ac ardystiadau ar gyfer cynlluniau iechyd gwartheg. Mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn i gynnwys TB buchol a bydd yn rhoi statws sy'n seiliedig ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol a nifer y blynyddoedd ers i'r gyr gael ei heintio.

²⁹ Dull o'r newydd ar gyfer Dileu TB

³⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 58

³¹ www.cheecs.co.uk/

Maint y gyr

47. Ceisiodd y Pwyllgor sefydlu i ba raddau y gall maint y gyr ddylanwadu ar y camau a gymerir i reoli haint TB a faint y mae'n lledaenu.

48. Dywedodd yr Athro Rosie Woodroffe fod maint y gyr yn ffactor risg o ran lledaenu TB, gan ddweud bod y duedd gynyddol tuag at yrroedd mwy o faint yn gwaethygu'r risg TB. Dywedodd:

“I’m a TB badger ecologist, but one of the main risk factors for TB in cattle is herd size. So, an individual cow in a large herd has a higher risk of getting TB than an individual cow in a small herd. It’s not just that there are more of them so the herd is more likely to get TB; it’s that individual cattle have a higher risk in large herds... in trying to combat this disease, it’s like swimming upstream, because the trend within the industry is fewer larger herds and yet the TB risk goes up with herd size.”³²

49. Roedd Lizzie Wilberforce o Ymddiriedolaethau Natur Cymru hefyd yn dadlau bod maint y gyr yn dylanwadu ar haint:

“I think one of the difficulties is that cattle control measures have been in place for a long time, but the industry has evolved a lot, so some of the risk factors, like herd size, have changed a lot. Herd sizes have got larger, and the larger the herds get, the harder it is to eradicate the disease from the herd, as well.”³³

50. Dadleuodd Dr Neil Paton, Llywydd Cangen Cymru Cymdeithas Milfeddygon Prydain fod rheoli gyroedd yn bwysicach na maint y gyr:

“It really does depend on the management of those animals. You can manage large herds effectively to control TB, it’s just a little bit more difficult to do and needs a bit more thinking about. So, it’s not their size per se that’s the problem, but it’s the way the animals are managed within that herd.”³⁴

51. Roedd Dr Paul Livingstone, cyn-reolwr Ymchwil a Dileu TB ar gyfer Bwrdd Iechyd Anifeiliaid Seland Newydd yn cytuno bod maint y gyr wedi cyfrannu at ledaeniad TB ond dywedodd na fyddai cyfyngiadau ar faint yn bosibl:

“With regard to the size of cattle herds, yes, the larger the herd size, the more difficult it is to get it out of them... So, yes, larger herds are more difficult to get the TB out of than smaller herds, but we can still achieve that through frequent testing. First of all, you can’t restrict a farmer’s herd size. The farmer is there to make money out of his production and, therefore, the herd size is very much dependent on what they can afford. So, we don’t restrict anything around herd size, but we do require that, if you’ve an infected herd, you are under quarantine, and if you live in an area where we have TB wildlife, then, in fact,

³² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 20

³³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 310

³⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 316

you're also placed under a movement restriction, meaning you have to have pre-movement testing to move from those areas.”³⁵

52. Eglurodd yr Athro Rosie Woodroffe mai'r prif ffactor o ran risg ar gyfer TB mewn gwartheg yw maint y gyr, gyda buwch unigol mewn gyr mawr mewn mwy o berygl o gael TB na buwch unigol mewn gyr bach, a bod y duedd gynyddol tuag at yrroedd mwy yn gwaethygu'r risg o ran TB.

53. Dywedodd Dr Hovi o Defra fod rheoli gyroedd yr un mor bwysig â maint. Roedd hefyd yn dadlau y byddai cyfyngu ar faint y gyr yn ormod o ymyrraeth yn y diwydiant. Dywedodd:

“There has been a huge amount of risk analysis carried out about TB and various different aspects, and it must be said that the herd size always comes out on the top.”³⁶

“So, it's not their size per se that's the problem, but it's the way the animals are managed within that herd... [recommending a limit on herd size] would be interfering with the industry too much, and we of course know that, for example, on average, herd size in Scotland is the greatest of all the devolved authorities in GB, and they are disease free. So, large herd size does not prevent you from eradicating TB. We don't see it as an impediment to that. We just need to do the right things. It's slightly harder with large herds.”³⁷

Profion

54. Yn sgil y rôl bwysig o brofi gwartheg yn rhaglen ddileu Llywodraeth Cymru, clywodd y Pwyllgor sylwadau gan dystion ar y ddau brif brawf a ddefnyddir ar wartheg; gama interfferon a phroffion interfferon croen.

55. Clywodd y Pwyllgor ers 2015 y bu cynnydd yn nifer y gwartheg a laddwyd er y bu gostyngiad yn nifer yr achosion newydd o TB mewn gyroedd. Priodolwyd hyn gan dystion i'r defnydd o broffion gama interfferon mewn ardaloedd risg uchel. Mae sensitifrwydd y prawf hwn yn golygu bod risg y gall gwartheg iach gael eu lladd.

56. Eglurodd yr Athro Rosie Woodroffe fod gama interfferon yn brawf mwy sensitif, sy'n gallu cael mwy o ganlyniadau positif, ond hefyd mwy o ganlyniadau negyddol ffug. Felly, mae'n bosibl y bydd nifer yr anifeiliaid heb TB sy'n cael eu lladd yn uwch. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pam mae nifer yr achosion mewn gyroedd wedi gostwng, ond bod nifer y gwartheg a laddwyd wedi cynyddu, dywedodd:

“A lot more use of gamma interferon testing, for example, which is a more sensitive but also less specific test, which is a good idea if you're trying to control disease.”³⁸

57. Dywedodd Dr Neil Paton, Llywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Milfeddygon Prydain fod y rhan fwyaf o broffion a gynhelir yng Nghymru yn broffion interfferon croen, gyda gama interfferon yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio mewn ardaloedd risg uchel ac wedi'u targedu at ffermydd sy'n

³⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 24

³⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraffau 364, 366

³⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 370

³⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 9

'problem'. Cadarnhaodd fod sensitifrwydd y prawf yn golygu bod perygl o ladd anifeiliaid iach ond teimlai ei fod yn risg derbyniol. Dywedodd:

“In terms of the sensitivity, yes, it is more likely to find the infected animals in there and, more importantly, is less likely to leave infected animals behind. But, the balance with that is we take more cattle than we should—more healthy cattle—out of the herd. I think it is, where appropriate on appropriate farms to get to the bottom of a problem, a perfectly acceptable strategy and it is something that we have to accept—that we’re going to take more cattle than we really need to.”³⁹

58. Soniodd Dr Nick Fenwick o Undeb Amaethwyr Cymru hefyd am y ddibyniaeth gynyddol ar y profion hyn yn yr ymgynghoriad. Cyfeiriodd at yr arfer yn Lloegr, gan nodi fel a ganlyn:

“... even when you account for increased testing, we’re still killing more cattle ... So, whilst I’m not saying that gamma interferon doesn’t give us some reactors that maybe we wouldn’t have had, what’s the proportionality of that?”⁴⁰

59. Clywodd cynrychiolwyr y Pwyllgor a ymwelodd â Dulyn sut y mae profion gama interfferon yn cael eu defnyddio yn Iwerddon. Fel yng Nghymru, mae wedi arwain at gynydd yn nifer yr adweithyddion, serch hynny roedd y Prif Swyddog Milfeddygol yn Iwerddon yn ystyried bod y gyfundrefn brofi yn werth chweil wrth fynd i’r afael â’r clefyd.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

60. Ar 16 Ionawr 2016 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ysgrifenedig⁴¹ am adroddiad ar effaith y cynnydd yn y defnydd o brofion gama interfferon ar nifer y gwartheg sy’n cael eu lladd oherwydd TB buchol. Mae’n priodoli’r cynnydd yn nifer y gwartheg a laddwyd i’r cynnydd yn y defnydd o brofion gama interfferon, gan nodi:

“Y rheswm pennaf dros y cynnydd yn nifer y gwartheg sy’n cael eu lladd yw’r cynnydd yn y defnydd o’r prawf interferon-gamma. Mae’r prawf gamma yn fwy sensitif, gan ddatgelu mwy o wartheg sy’n adweithio na’r prawf croen safonol. Y prawf yw un o’r arfau gorau sydd gennym i ddileu’r clefyd mewn buchesi heintiedig oherwydd, o’i ddefnyddio ar y cyd â’r prawf croen, mae gwartheg heintiedig yn fwy tebygol o gael eu darganfod. Hefyd, mae’n gallu synhwyro’r haint yn gynt sy’n golygu y gall ein helpu i gael gafael ar wartheg heintiedig cyn iddyn nhw ddechrau heintio gwartheg eraill. Mae’r cynnydd mewn profion gamma wedi arwain at gynydd dramatig yn nifer y gwartheg sy’n adweithio’n bositif, gan gyfrannu’n fawr at y cynnydd yn y nifer sy’n cael eu lladd.

Fy amcan yw torri nifer y gwartheg sy’n cael eu lladd oherwydd TB i’r lleiafswm angenrheidiol ond gan ddileu’r clefyd mewn buchesi cyn gynted â phosib i’w rwystro rhag lledaenu i wartheg eraill, anifeiliaid gwyllt a phobl. Mae’r mesurau a gymerwyd hyd heddiw i’w gweld wedi cael effaith bositif.

³⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 236

⁴⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 169

⁴¹ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/gammatesting/>

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r profion gamma mewn ffordd strategol lle gall y defnydd gorau ohono ategu ein mesurau eraill.”

Mesurau bioddiogelwch gwell

61. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch y rôl bwysig sydd gan ffermwyr yn rheoli'r clefyd drwy fiioddiogelwch da a hwsmonaeth anifeiliaid. Clywsom dystiolaeth o'r angen i'r gymuned ffermio gadarnhau'r dystiolaeth a'r cynigion ar gyfer mesurau bioddiogelwch llymach.

62. Siaradodd Dr Hazel Wright o Undeb Amaethwyr Cymru am yr angen i asesu'r rheolaethau bioddiogelwch presennol yn iawn cyn gweithredu rhai newydd er mwyn sicrhau bod y baich ar fusnesau yn gymesur. Dywedodd:

“There are additional controls within this consultation that are add-ons to previous controls that the union has opposed in the past. And those previous controls haven't been evaluated for their effectiveness before stricter versions of those controls come into the next consultation. So, for me, it's about prioritisation, impact assessment of the controls that are currently in place, looking at the financial and administrative burden and time burden on farmers, and having a look to see if there's actually some that are superfluous to requirements, which impose a disproportionate burden on a farmer compared to the disease impact.”⁴²

63. Galwodd am werthusiad o'r holl fesurau bioddiogelwch arfaethedig, i ganfod:

“Which really have an impact on disease control, and which are there because we think it might be a good idea, but he haven't actually evaluated it? Those are really important questions. They're important for the competitiveness for the business, actually.”⁴³

64. Dywedodd Lizzie Wilberforce o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru fod cynigion Llywodraeth Cymru yn fwy tebygol o gael cefnogaeth a bod yn fwy effeithiol wrth iddynt gael eu teilwra i anghenion y busnes unigol. Dywedodd:

“... there's evidence that when you've got regional strategies, including specifically biosecurity, and if you've got tailored solutions, people are more likely to buy into it. It's such a complex picture that broad-brush solutions are likely to be ineffective anyway, but if people feel that they have tailored solutions, they're more likely to engage in the process, because the chances of success that come with that tie into the level of scrutiny that local situations have been given. I think there's some published evidence that people comply with biosecurity solutions that are tailored to high-risk areas more readily.”⁴⁴

65. Clywodd y Pwyllgor gan dystion am fater trosglwyddo TB buchol yn anuniongyrchol drwy gyfrwng yr amgylchedd (er enghraifft bacteria o fewn slyri). Awgrymodd y dystion, ac Ysgrifennydd y Cabinet, nad yw'r agwedd hon ar drosglwyddo'r haint wedi'i llwyr ddeall, a bod angen mwy o waith yn y maes hwn.

⁴² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 162

⁴³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 166

⁴⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 247

66. Siaradodd yr Athro Rosie Woodroffe am brosiect y mae'n ymgymryd ag ef i edrych ar rôl trosglwyddo amgylcheddol, er mwyn llywio mesurau bioddiogelwch. Dywedodd:

“Some research that has been going on in my group recently has suggested that badgers and cattle very seldom come into direct contact, suggesting that the transmission is most likely happening through the environment. Now, that's important because it's always been assumed that if you take away the test-positive badger or the test-positive cow, the infection is gone. But what this hints at—and we're doing more research to look at it—is that the bacteria may not be gone; the bacteria may still be surviving in the environment and some of these repeat breakdowns—they may be getting re-infected from the environment, even though the hosts, the animals that have the disease, may have been removed.”⁴⁵

67. Siaradodd yr Athro Rosie Woodroffe am y pellteroedd mawr y mae slyri yn cael ei ledaenu, gan gynnwys o un fferm i'r llall, a'r angen i ddeall y rôl y mae trosglwyddiad anuniongyrchol yn ei chwarae wrth ledaenu TB.⁴⁶

68. Roedd cynrychiolwyr ffermio yn derbyn bod risg yn bodoli, ond amlygodd y goblygiadau ariannol o reoli'r risg. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y risg o ledaenu TB drwy slyri ar dir pori, dywedodd Dr Nick Fenwick o Undeb Amaethwyr Cymru fod y risg o slyri yn gostwng dros amser a bod y risg yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y ffordd y cafodd ei storio.⁴⁷

69. Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru wrth y Pwyllgor fod y sail dystiolaeth yn dal i ddatblygu ar hyn o bryd ond bod y dystiolaeth fwyaf diweddar yn awgrymu fwyfwy bod yr haint yn cael ei drosglwyddo drwy'r amgylchedd ac nid rhwng moch daear a gwartheg.⁴⁸ Aeth James Byrne o Ymddiriedolaethau Natur Cymru ymlaen i ddweud:

“...there's the evidence that TB stays in the environment. Even if you remove all the badgers and you remove all the cattle, TB will still be in the environment for, potentially, up to months. So, they've been looking at trialling measures to see how they can mitigate that in terms of biosecurity measures—she's [Professor Rosie Woodroffe] suggesting slurry control measures, et cetera. But she didn't have a list that she could give you now, because she wants to look at them and trial them. So, I think it will be very important to have a look at that—the results that are coming out about that.”⁴⁹

70. Mae angen amlwg am ragor o dystiolaeth ar y graddau y gall arferion gwell o ran bioddiogelwch, yn arbennig rheoli slyri, gyfyngu ar ledaeniad y clefyd.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

71. O ran rheolaeth, awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'r agwedd hon ar drosglwyddo'r haint wedi'i llwyr ddeall, a bod angen mwy o waith yn y maes hwn. Dywedodd:

⁴⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 85

⁴⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 172

⁴⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 182

⁴⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 279

⁴⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 234

“When I came into portfolio and was looking at this, there were very limited data around cattle faeces, for instance. But we know that, in slurry, it can live for up to about 6 months.”⁵⁰

72. Dywedodd yr Athro Christianne Glossop:

“Looking at slurry and the treatment of slurry is just one piece of the biosecurity package, and that’s why we believe that each farm needs to have its own biosecurity protocol because they can understand the risk factors, really... One of the approaches could be—and we do this on some farms—to require them to hold that slurry for that period of time. Of course, there are practical difficulties associated with that.”⁵¹

Ein safbwynt ni

Mae enghreifftiau o dramor yn dangos y gall perygl o drosglwyddo rhwng gwartheg gael ei reoli a'i leihau drwy brynu gwybodus, masnachu yn seiliedig ar risg, a mesurau bioddiogelwch. Mae'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnig yn gymesur ac yn angenrheidiol.

Yn ei dogfen ymgynghori, cyfeiria Llywodraeth Cymru at grant i helpu marchnadoedd da byw i arddangos gwybodaeth am TB yn well yn achos gwartheg sy'n cael eu gwerthu, ac mae hyn yn cael ei groesawu. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant i gyrraedd sefyllfa lle mae gwybodaeth ar gael yn yr holl fannau gwerthu yng Nghymru am hanes y gyr perthnasol.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r syniad o gyflwyno masnachu gwirfoddol sy'n seiliedig ar risg ac yn annog Llywodraeth Cymru i bennu dyddiad erbyn pryd y bydd hyn yn cael ei gyflwyno. Mae angen rhagor o eglurhad ynghylch y ffactorau y mae angen iddynt fod ar waith cyn y gall system o'r fath ddechrau ar sail wirfoddol, h.y. ar ba bwynt y bydd digon o wybodaeth am yrroedd er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, a beth sy'n cael ei wneud i gasglu'r wybodaeth hon. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd werthuso'r cynllun gwirfoddol ac ystyried a ddylai masnachu gwirfoddol yn seiliedig ar risg fod yn orfodol os dangosir nad yw'r mesurau gwirfoddol yn cael eu dilyn.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fod sensitifrwydd cynyddol y prawf gama interfferon yn arwain at risg uwch o wartheg iach yn cael eu lladd. Mae'r angen i ddileu'r clefyd hwn yn golygu bod y defnydd o'r prawf hwn yn angenrheidiol, yn ogystal â'r prawf croen interfferon. Nododd yr Aelodau y dystiolaeth gan Gymdeithas Milfeddygon Prydain fod y prawf yn cael ei ddefnyddio mewn lleiafrif o ffermydd sy'n cael eu hystyried yn risg uchel. Fodd bynnag, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng y dulliau ar gyfer ymdrin â'r clefyd yn erbyn y gost i fusnesau mewn cynhyrchiant a stoc a gollir.

Mae angen amlwg am ragor o dystiolaeth i ddeall yn well sut y caiff TB ei drosglwyddo yn yr amgylchedd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau ar reoli slyri, yn enwedig o ran lledaenu rhwng ffermydd, yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf.

Mae angen tystiolaeth well hefyd o'r gydberthynas rhwng maint y gyr ac arferion rheoli gyr, yn ogystal â'r risgiau posibl y maent yn eu peri i ddileu TB. Gan dderbyn efallai nad yw maint y gyr yr un mor

⁵⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 76

⁵¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 75

bwysig â rheoli'r gyr, mae'n dal i fod yn ffactor risg sylweddol y gellid mynd i'r afael yn well ag ef yn null Llywodraeth Cymru o ddileu'r clefyd.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio ymhellach i'r risgiau posibl fod TB yn cael ei ledaenu oherwydd cynnydd ym maint gyroedd ac arferion rheoli slyri. Drwy gynnwys cyngor ar y ddau fater hwn mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru, gellid gwella'r cymorth a gynigir i ffermwyr wrth ymdrin â'r clefyd hwn.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gadw golwg ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf am brofion TB buchol ac archwilio pob opsiwn ar gyfer cynnal profion effeithiol sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd.

Argymhelliad 5. Cyhyd ag y bo modd, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys y diwydiant yn y gwaith o ddatblygu pecyn bioddiogelwch ar-lein, a hynny er mwyn sicrhau y gall ffermwyr Cymru ddatblygu mesurau'n ymwneud yn benodol â ffermydd a fydd yn ychwanegu gwerth at yr ymdrechion i reoli a dileu'r clefyd.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i hybu trefniadau Prynu Gwybodus, sef masnachu yn seiliedig ar risg. Dylai system fasnachu yn seiliedig ar risg gael ei chyflwyno'n wirfoddol i ddechrau yn y diwydiant a'r marchnadoedd da byw. Dylid adolygu'r system yn gyson ac, os bydd angen, dylid ei gwneud yn orfodol.

05. Trosglwyddo drwy fywyd gwyllt

Edrychodd y Pwyllgor ar rôl moch daear yn trosglwyddo TB buchol i wartheg. Mae'r bennod hon yn nodi casgliadau'r Pwyllgor ar y mater hwn.

73. Yn ei dogfen ymgynghori 'Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB',⁵² mae Llywodraeth Cymru yn nodi amrywiaeth o opsiynau i fynd i'r afael â'r gronfa bywyd gwyllt, gan gynnwys:

- monitro lefel yr haint mewn moch daear, er enghraifft drwy'r arolwg o foch daear marw;
- rhoi anogaeth i frechu moch daear pan fydd y brechlyn ar gael;
- rhoi ymyriadau priodol ar waith i dorri llwybrau trosglwyddo'r clefyd rhwng gwartheg a bywyd gwyllt (heblaw am fioddioelwch);
- lleihau'r risg bod yr haint yn lledaenu drwy symud gwartheg a moch daear sydd wedi'u heintio; ac
- ystyried a datblygu ffyrdd o dorri'r cylch trosglwyddo rhwng gwartheg a moch daear lle gellir dangos bod moch daear yn cyfrannu at y broblem mewn achosion cronig o'r haint mewn gyroedd (gan gynnwys dal moch daear a'u difa heb greulondeb).

Crynodeb o'r dystiolaeth ar rôl moch daear yn trosglwyddo TB

74. Roedd tystiolaeth gan dystion yn amlygu'r angen i wybod mwy am y graddau y mae moch daear yn gyfrifol am heintio gwartheg â TB, a sut y mae hyn yn digwydd. Yn eu tystiolaeth, cyfeiriodd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru at waith modelu Donnelly a Nouvellet⁵³ (2013) sy'n awgrymu bod moch daear yn gyfrifol am tua 5.7 y cant o'r achosion o TB buchol.⁵⁴

75. Rhoddodd cynrychiolwyr ffermio dystiolaeth o'r risg a berir gan foch daear wrth ledaenu'r clefyd. Pwysleisiodd Stephen James o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ni waeth pa mor fach yw'r risg o drosglwyddo o fywyd gwyllt i wartheg, ei bod yn bwysig ei fod yn cael sylw. Eglurodd:

“I know the wildlife trusts or the Badger Trust will say that badgers are only responsible for 5 per cent of infection, but if it's 1 per cent, that starts the ball rolling. Once one animal on the farm is infected, it passes it on. We see plenty of areas where they go clear for two or three years and then it comes back, because it recycles.”⁵⁵

76. Dywedodd Dr Nick Fenwick o Undeb Amaethwyr Cymru:

“Mae'n werth nodi bod tystiolaeth yr ISG yn dangos bod 50 y cant o'r achosion TB yn yr ardaloedd lle roedden nhw'n difa yn Lloegr tan 2006-07 wedi cael eu hachosi gan foch, ar sail y data y gwnaethon nhw ei gasglu yn ystod y difa. Felly, mae'r broblem yn enfawr.”⁵⁶

⁵² Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB

⁵³ <http://currents.plos.org/outbreaks/>

⁵⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 235

⁵⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 150

⁵⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 150

77. Roedd Dr Hazel Wright o Undeb Amaethwyr Cymru yn pryderu nad oedd dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o fanylion am y cynigion ar gyfer difa moch daear. Roedd yn annog gwneuthurwyr polisi i fod yn fwy eglur yn eu cyngor ynglŷn â phryd y gellid rheoli moch daear ac aeth ymlaen i ddweud:

“We need to be looking at an approach that suggests that, on a farm, if the badger has any impact on the disease on that farm, no matter what the farmer does, no matter what control measures he puts in place, there is a source of reinfection that isn’t being dealt with. And I think we’ve skewed our policy towards cattle controls at the expense of badger control.”⁵⁷

78. Dywedodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain fod yn rhaid i’r gwaith o reoli a dileu TB buchol fod yn seiliedig ar ymchwil wyddonol gadarn ac epidemioleg filfeddygol. Dywedodd Dr Neil Paton, Llywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Milfeddygon Prydain, nad oedd y fector bywyd gwyllt yn cael sylw ar hyn o bryd wrth reoli’r clefyd. Dywedodd:

“...the BVA would be very adamant that TB control is only going to work if we use all the tools in the toolbox, and badger control and control of the wildlife sector has to be one of those.”⁵⁸

79. Mewn ateb i gwestiwn ynghylch p’un a allai’r clefyd gael ei ddileu drwy fesurau i reoli’r trosglwyddiad rhwng gwartheg yn unig, dywedodd:

“I don’t think so, because we would always have that internal, that re-infection pressure from the wildlife reservoir. So, there is 50 per cent cattle-to-cattle transmission—I’m not going to argue with that number—but where that originates from is typically from introduction from another source, and some of that source is wildlife. So, once one cow is infected within that, then it spreads potentially rapidly within that, so unless you’ve dealt with the wildlife as part of your overall control strategy, then you’re not going to get to an eradication stage.”⁵⁹

Effaith aflonyddu

80. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth anghyson ynghylch effaith aflonyddu sy’n gysylltiedig â difa. Roedd llawer o’r drafodaeth ynghylch aflonyddu yn nodi’r Hap-dreial Difa Moch Daear, ond mae astudiaethau ers hynny gan yr Athro Rosie Woodroffe, Defra ac astudiaethau yn Iwerddon hefyd wedi’u nodi.

81. Disgrifiwyd effaith aflonyddu yn y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor fel a ganlyn:

“The RBCT showed that culling caused disruption to the social structure of badger groups:

- their foraging ranges expanded and there was more overlap of social group territories.

⁵⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 144

⁵⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 215

⁵⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 281

-
- there was more frequent immigration to fill the void left from culling.
 - a higher prevalence of TB was found in the remaining badger population.
 - lower genetic relatedness.

The hypotheses based on these findings was that the increased prevalence of disease in the remaining badger population and the greater ranging could increase the opportunity for transmission and so cause the observed increase number of cattle breakdowns as seen in the 2km buffers around proactive culling areas and in the reactive culling areas.

The conclusion from the RBCT was that localised badger culling not only fails to control TB in cattle but can actually increase the incidence.”⁶⁰

Roedd yr Athro Christianne Glossop yn amheus o’r dystiolaeth ar gyfer effaith aflonyddu ond yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn bod yn ofalus er hynny. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr dywedodd:

“It is reasonable to assume that, in populations of wildlife that are very territorial, like badgers, if you remove some, there may be some mixing of populations, because the badgers that were defending their boundary aren’t there anymore to defend it. So, badgers move around. But my personal view is that an awful lot emphasis has been placed on perturbation, but, because there is evidence there, or suggested evidence there, that’s exactly why, we have requested that no cull zone in England comes within 2 km of the border with Wales, because we don’t want to have a problem at that border.”⁶¹

Disgrifiodd yr Hap-dreial Difa Moch Daear fel rhywbeth anghyflawn gyda bylchau, a dywedodd:

“...we are not proposing to do things in the same way as the protocol for the randomised badger culling trial. So, I can’t tell you what will happen; we haven’t done it yet, but we are devising our approach to maximise the benefit and minimise any potential disbenefit of that intervention.”⁶²

Safbwyntiau’r rhanddeiliaid

82. Dywedodd yr Athro Rosie Woodroffe wrth y Pwyllgor y gall difa lleol, yn ei barn hi, gynyddu’r risg o ledaenu’r clefyd oherwydd effaith aflonyddu. Yr unig ffordd o osgoi’r sefyllfa hon yw cael parth difa digon mawr, a all gyflwyno problemau eraill fel mwy o gostau a mynd yn groes i Gonfensiwn Berne.⁶³

83. Dadleuodd yr Athro Rosie Woodroffe fod effaith aflonyddu yn lleihau unrhyw fudd sy’n deillio o ddifa ar raddfa fach. Eglurodd:

“My research team was commissioned by the Department for Environment, Food and Rural Affairs to look at what the evidence was that small-scale culling of badgers would cause this social disruption, this perturbation. The evidence

⁶⁰ Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 23 Mawrth 2017

⁶¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 79

⁶² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 98

⁶³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 140

that we were able to collate suggested that it would—it looks as though perturbation starts with the first badger you take out. When small-scale culls happened as part of the Government policy in England between 1986 and 1998, that was associated with wider badger ranging, more TB in the badgers, and all the things that we saw when we did small-scale culling and large-scale culling of badgers.”⁶⁴

84. Dywedodd Dr Neil Paton o Gymdeithas Milfeddygon Prydain ei fod yn amheus ynghylch gwerth difa lleol. Dywedodd:

“If we take out one badger sett or one farm’s sett—a farm’s population of badgers—then there’s a whole surrounding population of badgers to move in and contaminate, or be re-picked up in the infection... So, to make that significant, to make that improvement, we need to make it over a significant area of the 150 sq km—and the hard borders and sufficiently reduce the number of badgers within that area. I suspect there would be more movement of badgers within that and, therefore, the likelihood of spread of TB within that area is higher. That’s what, as far as I can tell, the evidence supports.”⁶⁵

85. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru eu bod yn cefnogi’r gwaith a wnaed gan yr Athro Rosie Woodroffe, a oedd yn dangos bod effaith aflonyddu yn lleihau manteision difa. Dywedodd Lizzie Wilberforce:

“The only absolute about perturbation is that you can only stop it happening if you can absolutely guarantee that you can stop badgers moving, which means either getting rid of all the badgers or doing something that doesn’t affect their behaviour at all, which is why vaccination removes that, because it doesn’t actually take any animals out of the system. So, I think when you start looking at creating a system where there’s no movement of badgers, you’re talking about a scale of operation that’s...at such a scale it would probably contravene the Bern convention, and the fact that, actually, all the experience shows so far that you can’t even trap a significant enough proportion of the badger population to ensure that that doesn’t happen.”⁶⁶

86. Aeth James Byrne o Ymddiriedolaethau Natur Cymru, a oedd yn gwrthwynebu’r difa, ymlaen i ddweud:

“We as an evidence-based organisation will take the most recent science, and that is that it [localised culling] just doesn’t work.”⁶⁷

87. Mae dystiolaeth Defra yn awgrymu y gall rhai mathau o ffiniau caled (fel afonydd a ffyrdd mawr) ddileu’r risg o aflonyddu bron yn llwyr.⁶⁸ Pan holwyd Dr Malla Hovi ynghylch y dystiolaeth a oedd yn sail i’r penderfyniad i ddifa moch daear o ystyried y problemau sy’n deillio o aflonyddu, atebodd fel a ganlyn:

⁶⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 136

⁶⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 256

⁶⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 243

⁶⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 244

⁶⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 358

“The overall evidence base showing that, in the long term, the negative impacts of perturbation are overcome by the positive impacts of the long-term effect on the cattle disease...Nevertheless, the positive effect of culling in a large area where proactive culling is carried out is still a 16 per cent reduction in diseased cattle overall. We figure that’s adequate for us. We are hoping that, with a different way of doing the culling, we are allowing much larger areas and, in fact, we said that the areas have to be greater than 100 sq km, but most of the cull area that we have ongoing at the moment – the 10 cull areas- are much, much larger than that, and we’re hoping that, together with the hard boundaries that are a requirement for the licence, will mitigate the perturbation effect...We only have results from the cull areas...for the first two years in the two cull areas in Gloucestershire and Somerset, the published analysis so far hasn’t shown any perturbation effect in the surrounding 2 km area. So, we’re hopeful that we won’t see it, at least to the extent that it was seen in the RBCT...The conclusions are that we haven’t seen any change. We haven’t seen the perturbation effect in the surrounding area, and we haven’t seen yet any statistically significant change in the cattle disease in those areas.”⁶⁹

88. Roedd y drafodaeth gafodd y Pwyllgor gyda chynrychiolwyr ffermio yn dangos eu bod yn amheus o’r casgliadau a luniwyd am effaith aflonyddu ar sail yr Hap-dreial Difa Moch Daear. Dywedodd Dr Nick Fenwick o Undeb Amaethwyr Cymru:

“We also need to bear in mind that the perturbation effect disappears in terms of culling. So, there was perturbation, apparently, from the figures during the five years of culling, but in the two and a half years after that, perturbation disappeared, and therefore the positive impacts of culling were far greater than they were when originally reported.”⁷⁰

89. O ran yr Hap-dreial Difa Moch Daear, dywedodd:

“...when you take the data from the randomised badger culling trials and you analyse them without the distortions applied in terms of modelling—. There were some mathematical distortions to the data—‘corrections’ they called them—but if you take the plain data, the perturbation effect is either negligible or non-existent in terms of the raw data, so it simply wasn’t seen when you looked at the raw data; it only comes out of the system when it’s run through mathematical models, and that’s an important factor. So, I don’t think the jury is back in on perturbation; I think there are some peculiar questions to be asked in terms of the effect of perturbation. We don’t actually know what impact, if any, there would be were we to remove animals that were positively identified as positive.”⁷¹

90. Aeth Dr Hazel Wright o Undeb Amaethwyr Cymru ymlaen i ddweud:

⁶⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraffau 381-383

⁷⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 94

⁷¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 95

“...we have to bear in mind that there are ways to manage perturbation when you design badger control policies. So, it’s not an either/or situation; it’s not as though we have a situation where we say, ‘Badger control will automatically lead to perturbation’.”⁷²

Safbwynt Llywodraeth Cymru

91. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor, darparodd Llywodraeth Cymru nodyn ar y dystiolaeth o effaith aflonyddu ar ôl difa moch daear, sut y cafodd ei ddehongli gan Defra a Llywodraeth Cymru a sut y mae hyn wedi dylanwadu ar ei dulliau ei hun o ran dileu TB buchol. Nodwyd:

“We have good evidence that social perturbation in badger populations happens in the wake of culling operations and it is a plausible explanation for the observed outcomes of the RBC T. However, we have little information on what perturbation looks like at the local scale or how changes in the number of badgers removed affects the level of perturbation and exactly how it relates to epidemiological outcomes.

As part of our badger removal operation we will gather data to:

- examine the effect on the status of the chronic breakdown herd (though this will can only be measured as a result of the combined measures applied)
- examine the effect on incidence in the surrounding cattle herds
- better understand the effect on the social structure of badgers
- measure the prevalence of TB in the remaining badger population
- using the panel of results, continue to evaluate the performance of the Dual Path Platform (DPP) trap side test, and review and adapt our removal policy if the resulting evidence deems it necessary.

We will work with colleagues in the Animal and Plant Health Agency (APHA) to develop processes to gather data and develop systems to analyse the results to achieve this.”⁷³

Brechu

92. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am ddull Profi a Brechu neu Symud Gogledd Iwerddon (y dull TVR). Mae’r rhaglen ymchwil bum mlynedd hon gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn golygu dal moch daear a chynnal profion TB arnynt. Mae moch daear sy’n cael canlyniad negatif yn cael microsglodyn, eu brechu a’u rhyddhau. Mae moch daear sy’n cael canlyniad positif yn cael eu dinistrio.

93. Datblygwyd a gwrthodwyd y dull TVR eisoes yng Nghymru.⁷⁴ Roedd gan y model ddau amcanestyniad amgen yn seiliedig ar wahanol dybiaethau o ran aflonyddu cymdeithasol, sef:

⁷² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 104

⁷³ Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, 23 Mawrth 2017

⁷⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 132

- Yn y modelau heb unrhyw aflonyddu cymdeithasol, byddai'r dull hwn yn fwy effeithiol o ran lleihau TB na difa neu frechu moch daear yn unig; ac
- Yn y modelau lle'r oedd aflonyddu cymdeithasol ar ôl pob achos o ddifa moch daear, bu cynnydd dramatig yn nifer y moch daear sydd wedi'u heintio a nifer y gyrrroedd a oedd wedi'u heintio â TB. Y rheswm am hyn yw y byddai nifer fawr o foch daear a allai gael eu heintio yn dal ar ôl (dim ond cyfran o'r moch daear fyddai'n cael eu dal, nid yw'r profion yn gwbl gywir ac nid yw'r brechlyn yn gwbl effeithiol).⁷⁵

94. Yn sgil y pryderon am yr ail bwynt, gwrthododd Llywodraeth Cymru y dull TVR yng Nghymru. Yn 2013, comisiynodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yr un modelwyr i gynhyrchu fersiwn wahanol o'r model efelychu a ddefnyddiwyd yng Nghymru gyda gwahanol ragdybiaethau. Esgorodd modelau Cymru a Gogledd Iwerddon ganlyniadau gwahanol iawn o ran ansawdd. Roedd model Gogledd Iwerddon yn dangos gostyngiad cyffredinol amcanestynedig yn y gyrrroedd â TB ar ôl blwyddyn gyntaf y rhaglen TVR (ar ôl cynnydd cychwynnol). Roedd model Cymru yn dangos cynnydd yn nifer y gyrrroedd â TB am bum mlynedd hyd nes y deuai'r cynllun TVR i ben.

Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

95. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd gan Gymdeithas Milfeddygon Prydain bryderon ynghylch mabwysiadu dull TVR Gogledd Iwerddon yng Nghymru, gan ddweud nad yw'r gwaith modelu yn cefnogi hynny ac nad ydynt wedi gweld y dystiolaeth i awgrymu y bydd yn cael effaith.⁷⁶

96. Safbwynt polisi Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn 2014 oedd cefnogi'r syniad o ddifa moch daear mewn ffordd sydd wedi'i thargedu a'i rheoli. Opsiwn i'w ddefnyddio mewn ardaloedd a ddewiswyd yn ofalus oedd hwn, lle bernir bod moch daear yn cyfrannu'n sylweddol at bresenoldeb parhaus TB buchol.⁷⁷

97. Clywodd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr ffermio sy'n credu bod difa yn fwy effeithiol na brechu moch daear. Roedd Dr Nick Fenwick o Undeb Amaethwyr Cymru yn dyfynnu adroddiad:

“... as some of you will be aware, the EU taskforce for monitoring animal disease, which came over here in 2011-12, made it clear that there is, and I quote, ‘no scientific evidence to demonstrate that badger vaccination will reduce the incidence of TB in cattle. However, there is considerable evidence to support the removal of badgers in order to improve the TB status of both badgers and cattle.’”⁷⁸

98. Eglurodd Dr Hazel Wright o Undeb Amaethwyr Cymru mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio brechu oedd ar ffin parth difa.

“There are ways of culling and controlling that allow you to move forward in a more reasonable way. In fact, the vaccination policy in the intensive action area in Pembrokeshire didn't make scientific sense because it was vaccination within an endemic disease area. Obviously, that doesn't have an effect on

⁷⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 133

⁷⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 271

⁷⁷ www.bva.co.uk/News-campaigns-and-policy/Newsroom/News-releases/British-Veterinary-Association-statement-on-second-year-of-badger-cull-pilots-in-England/

⁷⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 188

infected badgers. But actually ring-fencing vaccination around a cull zone could protect some badgers and could minimise the perturbation effect.”⁷⁹

Safbwynt Llywodraeth Cymru

99. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Ardal Triniaeth Ddwys yn Sir Benfro yn 2010 fel ardal lle byddai mwy o fesurau yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â holl ffynonellau TB buchol, mewn rhywogaethau anifeiliaid domestig ac anifeiliaid gwylt. Dechreuodd prosiect brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys ym mis Mai 2012. Roedd ar fin dechrau ei bumed flwyddyn yng ngwanwyn 2016 ond cafwyd problemau gyda'r cyflenwad byd-eang o'r brechllyn a ddefnyddiwyd i frechu'r moch daear. Felly, cyhoeddodd⁸⁰ Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015 y byddai'r cynllun treialu yn dod i ben flwyddyn yn gynnar. Roedd papur Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn nodi fel a ganlyn:

“Yn yr Ardal Gweithredu Dwys rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y gyrruodd agored wedi'u heintio â TB. Mae hyn yn galonogol ond mae angen rhagor o amser cyn y gallwn weld a oes unrhyw wahaniaethau ystyrion mewn tueddiadau. Fodd bynnag, bydd unrhyw newidiadau a welwn yn digwydd o ganlyniad i'r holl fesurau a gyflwynwyd gennym i leihau'r lefel heintio o fewn pob rhywogaeth yn yr ardal ac ni allwn lunio unrhyw gasgliadau ynglŷn â rôl brechu moch daear ynddo'i hun o ran lleihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg.

The vaccination of badgers was halted due to a global shortage of BCG vaccine available for use in humans. We are continuing to explore the possibility of obtaining human BCG from a different supplier and have remained in close contact with Defra and together we are monitoring developments relating to the availability and supply of vaccine.

Research continues into the feasibility of utilising BCG in Oral Bait as a tool to control the spread of Bovine TB...Badger vaccination remains an important tool which should be used where appropriate.”⁸¹

100. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 14 Rhagfyr 2016, eglurodd yr Athro Christianne Glossop nad oes digon o dystiolaeth i ddweud gyda sicrwydd beth yw effaith brechu moch daear ar yr achosion o TB mewn gwartheg.⁸² Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd brechu yn chwarae rhan mewn unrhyw raglen yn y dyfodol, os bydd yn dod ar gael.⁸³ Aeth ymlaen i ddweud bod y Llywodraeth yn cadw llygad ar argaeledd y brechllyn a'i bod yn rhy gynnar i ddweud sut a ble y byddai'n cael ei ddefnyddio yn y dyfodol hyd nes bod mwy o fanylion faint ohono a fyddai ar gael.

Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer symud moch daear sydd wedi'u heintio

101. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2016, siaradodd Ysgrifennydd y Cabinet am ddiystyru difa fel yn Lloegr, gan ddweud:

⁷⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 104

⁸⁰ <http://gov.wales/newsroom/environmentandcountryside/2015/badger-vaccination-project-to-be-suspended/>

⁸¹ Papur i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016

⁸² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 63

⁸³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 66

“...I thought it was very important to get that message out – that we are ruling out an English-style cull. And, I suppose by that I mean culling including the free-shooting of badgers undertaken by farmers under licence, which is, obviously what happens in England.”⁸⁴

102. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Rydym yn gweithio yn awr gyda’r ffermwyr unigol a’u milfeddyg i ddatblygu cynlluniau pwrpasol ar gyfer pob fferm lle ceir achosion cyson wedi’u cadarnhau o TB a lle y credir bod moch daear yn cyfrannu at y clefyd yn y buchesi cronig hyn ag achosion wedi’u cadarnhau o TB, mae’n rhaid inni fod yn arloesol wrth ganfod ffyrdd o atal trosglwyddiad yr haint. Gallai hyn gynnwys symud anifail unigol neu grwpiau o anifeiliaid sydd wedi’u heintio.”⁸⁵

103. Amlygodd yr Athro Christianne Glossop ymhellach:

“I’ve noted that there’s quite a lot of criticism of what is perceived to be the reactive cull that we are talking about, on individual farms. And I think it’s worth just pointing out that we are not proposing that at all.”⁸⁶

104. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y Pwyllgor ar 23 Mawrth 2017 yn amlinellu’r cynigion ar gyfer cyflwyno proses leol o symud moch daear sydd wedi’u heintio lle credir eu bod yn cyfrannu at barhad TB mewn gyrruedd sydd â haint TB cronig. Mae’r llythyr yn nodi’r polisi:

“Proposals for badger removal operations in Wales

In Wales, where it is believed that badgers are contributing to the persistence of TB in chronic breakdown herds, measures need to be implemented to break the badger to cattle route of transmission.

The delivery model we are proposing for the removal of badgers is not a repeat of the reactive cull element of the RBC T. The trap, test and removal operations being planned will be restricted to TB affected premises where veterinary epidemiological investigation indicates that infection of badgers on breakdown premises is the likely reason for a failure to eliminate infection from an associated cattle herd. There was no such consideration given in the RBC T. The removal of badgers will only take place once a TB test positive badger has been disclosed. Again, this differs from the RBC T where no attempt was taken to establish the infection status of badgers within the reactive culling triplets prior to their removal.

In the RBC T reactive culling operations were undertaken just once at the farm level over eight consecutive nights. Our intention is to repeat the operation and not to be restricted by eight nights of cage trapping where indications are that trapping efficiency can be improved by extending this period.

⁸⁴ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 14

⁸⁵ Papur i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016

⁸⁶ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 16

Evidence emerging from the recent All Wales Badger Found Dead Survey is that the TB prevalence in badgers in the areas where we intend to operate is not expected to be as high as that seen in the RBCT areas. The proportion of badgers found dead identified as having TB has fallen in Wales since a previous survey was conducted in 2005/06. We have been testing all cattle herds in Wales at least once a year since 2010 and have built up a much clearer picture of the disease across Wales. There is significant spatial heterogeneity with disease clustered in some areas and almost absent in others. As such a more widespread proactive cull of badgers in Wales seems difficult to justify. We will be applying the badger removal operations alongside a suite of enhanced cattle and biosecurity measures to clear disease from the herd. Because the badger intervention we propose to make differs from previous badger interventions in Wales, close monitoring and reviewing of the outcomes for the co-located herds will be an important part of the work and inform future policy development.

Evidence to measure effect

We have good evidence that social perturbation in badger populations happens in the wake of culling operations and it is a plausible explanation for the observed outcomes of the RBCT. However, we have little information on what perturbation looks like at the local scale or how changes in the number of badgers removed affects the level of perturbation and exactly how it relates to epidemiological outcomes.

As part of our badger removal operation we will gather data to:

- examine the effect on the status of the chronic breakdown herd (though this will can only be measured as a result of the combined measures applied)
- examine the effect on incidence in the surrounding cattle herds
- better understand the effect on the social structure of badgers
- measure the prevalence of TB in the remaining badger population
- using the panel of results, continue to evaluate the performance of the Dual Path Platform (DPP) trap side test, and review and adapt our removal policy if the resulting evidence deems it necessary.

We will work with colleagues in the Animal and Plant Health Agency (APHA) to develop processes to gather data and develop systems to analyse the results to achieve this.”

Ein safbwynt ni

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar rôl moch daear yn lledaenu TB buchol, y camau a gymerwyd yn hanesyddol a chynigion i newid y ffordd yr ymdrinnir â hyn yn y dyfodol. Er inni glywed tystiolaeth bod cyfraddau trosglwyddo o foch daear ond yn cyfrif am 5.7 y cant o heintiau gwartheg, mae angen

mynd i'r afael â'r gronfa bywyd gwyllt o fewn pecyn ehangach o fesurau, gan gynnwys rheoli gwartheg a bioddiogelwch.

Clywodd y Pwyllgor am yr anhawster o gynnal treial brechu moch daear effeithiol yng Nghymru oherwydd nad yw'r brechlyn ar gael. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi rhaglen i frechu moch daear, pan fydd brechlyn ar gael. Rhaid i'r rhaglen fod yn gysylltiedig â gwaith monitro a gwerthuso gwyddonol i gasglu data ar effeithiolrwydd brechu moch daear i leihau TB buchol.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i drapio, profi a symud moch daear sydd wedi'u heintio yng Nghymru mewn ardaloedd lle mae TB yn parhau mewn gyrroedd sydd â TB cronig. Rhaid i raglen o'r fath gael ei thargedu a'i chefnogi gan dystiolaeth epidemiolegol milfeddygol. Rhaid iddi gael mesurau diogelu priodol o'r fath fel y defnydd o ffiniau caled neu ardaloedd clustogi. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r dystiolaeth wyddonol er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn effeithiol wrth fynd i'r afael â throsglwyddo clefyd o foch daear i wartheg.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth anghyson am y graddau y gall effaith aflonyddu negyddu effeithiau difa moch daear. Os gellir ymddiried yn y dystiolaeth ar gyfer effaith aflonyddu, yna byddai'r difa lleol a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn peri pryder. Mae angen rhagor o eglurhad ynghylch cyflwyno mesurau fel ffiniau caled neu ardaloedd clustogi o 2km.

Argymhelliad 7. Rhaid defnyddio dulliau gwyddonol o fonitro ac adolygu cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen i symud moch daear penodol mewn achosion o yrroedd sydd â TB cronig. Rhaid addasu neu atal y rhaglen os nad yw'n rhwystro TB buchol rhag cael ei drosglwyddo o fywyd gwyllt i wartheg. Rhaid i unrhyw gamau a gymerir fel rhan o gynllun treialu gynnwys ffiniau caled a mesurau digonol i ddiogelu rhag y risg y bydd y cymunedau bywyd gwyllt yn aflonyddu.

Argymhelliad 8. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru baratoi adroddiad i'r Pwyllgor ddeuddeg mis ar ôl i ganlyniadau'r rhaglen i symud moch daear penodol ddechrau dod i'r amlwg. Rydym yn disgwyl i ddata Llywodraeth Cymru fod ar gael i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn prosesau tryloyw wrth iddi wneud penderfyniadau ac adolygu.

06. Trefniadau trawsffiniol

105. Mae Cymru yn rhannu 160 o filltiroedd o ffin tir â Lloegr ac mae gan ffermwyr sy'n byw yn y ddwy wlad eiddo sy'n pontio'r ffin. Fel y nodwyd, mae Cymru yn ffinio â thair ardal Risg Uchel (Swydd Amwythig, Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw) ac un ardal Ymylol (Swydd Gaer). Mae perygl y gallai TB buchol gael ei drosglwyddo rhwng Cymru a Lloegr - dwy awdurdodaeth gyda gwahanol agweddau at fynd i'r afael â'r clefyd mewn gwartheg a bywyd gwylt. Mae angen i'r strategaethau i ymdrin â'r clefyd weithio gyda'i gilydd er mwyn peidio â bod yn wrthgynhyrchiol, ac felly hefyd yr asiantaethau sy'n gyfrifol am ddileu TB.

Crynodeb o'r dystiolaeth

106. Dywedodd Dr Malla Hovi o Defra wrth y Pwyllgor na chafwyd unrhyw geisiadau am drwyddedau i ddifa mewn ardaloedd sy'n ffinio yn uniongyrchol â Chymru a phe bai ceisiadau wedi dod i law yna byddai wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud eu bod yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar reoli TB. Maent yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd yn rheolaidd.⁸⁷

107. Pan roddodd yr Athro Christianne Glossop ac Ysgrifennydd y Cabinet dystiolaeth i'r Pwyllgor, soniwyd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn nad oes unrhyw ddifa yn digwydd o fewn 2km i'r ffin â Chymru oherwydd y dystiolaeth bosibl ynglŷn ag aflonyddu. Dywedodd yr Athro Christianne Glossop:

“we are in direct contact with DEFRA and Natural England, who are issuing the licences, and they have clear instructions that they will not cull within 2 km of the border with Wales.”⁸⁸

108. Pwysleisiodd Dr Neil Paton o Gymdeithas Milfeddygon Prydain hefyd fod angen cydweithio ar draws ffiniau i fynd i'r afael â phroblemau megis effaith aflonyddu pan fo difa yn digwydd yn agos at y ffin â Chymru. Dywedodd:

“We are going to have to work with the English Government to try and get an aligned response. We then have to worry that these badgers from these culls are going to cross the border and infect our farms. We need to—. It may be that some of these pilot areas for culls are targeted up there to try and manage that particular issue. It is going to be a headache, and cross-border co-operation is going to be vital to doing it, so talking to our English counterparts is going to be necessary as we work forward. But we need to talk, I think.”⁸⁹

109. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet gopi i'r Pwyllgor o ganllawiau Defra sy'n rheoli'r broses o drwyddedu prosesau difa yn Lloegr. Mae'r canllawiau hyn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, yn nodi:

“Natural England and the Welsh Government should consider on a case-by-case basis any licence applications in respect of areas which cross the Welsh border. If an application relates to an area which is solely within England but

⁸⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 362

⁸⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 87

⁸⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 340

within 2km of the border, Natural England should determine the licence application in the normal way but will consult the Welsh Government.”⁹⁰

Ein safbwynt ni

Mae Llywodraeth Cymru a Defra yn rheoli'r risg o haint o fywyd gwyllt mewn ffyrdd gwahanol iawn. Fel y cyfryw, mae angen cael trefniadau digonol ar waith fel bod y naill a'r llall yn cael gwybod am unrhyw weithgaredd mewn ardaloedd yn agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Mae'n bwysig bod Defra yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn gynnwys wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau ar gyfer difa moch daear yn agos at y ffin â Chymru i leihau'r risg o aflonyddu sy'n effeithio ar fywyd gwyllt a gwartheg yng Nghymru.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru a Defra sicrhau bod y canllawiau cadarn ar waith i hwyluso cydweithrediad trawsffiniol, yn enwedig mewn perthynas â mesurau rheoli bywyd gwyllt, gan gynnwys symud a difa moch daear. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Defra adolygu'r canllawiau hyn yn gyson.

⁹⁰ www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/489845/badger-culling-guidance-ne.pdf

07. Llywodraethu'r rhaglen ddileu

Penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r rhaglen

110. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am y dulliau gwahanol o reoli'r clefyd hwn mewn gwledydd gwahanol ac i ba raddau y mae'r llywodraeth berthnasol yn perchnogi ac yn cyfarwyddo'r gwaith.

Crynodeb o'r dystiolaeth

111. Yn Iwerddon, clywodd yr Aelodau gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr mai un o'r heriau allweddol wrth ddileu'r clefyd oedd ennill hyder ffermwyr y gellir dileu'r clefyd, a phwysleisio nad oes lle i laesu dwylo na gwanhau'r rheoliadau. Trafododd gyda'r Aelodau y cynllun iawndal sydd ar waith. Mae'r system hon yn cynnwys taliadau incwm atodol, grantiau poblogaeth a grantiau caledi. Er enghraifft, ym 1979 cyflwynwyd ardollau ar allforion byw a chyflenwadau llaeth. Drwy'r system hon mae ffermwyr yn cyfrannu tua €25 miliwn i'r rhaglen brofi.

112. Mae'r strategaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'Bovine Tuberculosis Strategy for Northern Ireland'⁹¹ yn rhoi pwyslais cryf ar lywodraethu, diwylliant a chyfathrebu ac yn cynnwys strwythur llywodraethu newydd o bartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

113. Amlygodd tystiolaeth gan Dr Paul Livingstone, cyn-reolwr Ymchwil a Dileu ar gyfer Bwrdd Iechyd Anifeiliaid Seland Newydd a Dr Gareth Enticott o Brifysgol Caerdydd fod cydweithrediad a chyd-reoli gyda'r diwydiant ffermio wedi bod yn rhan annatod o lwyddiant y rhaglen i ddileu TB yn Seland Newydd.⁹²

114. Eglurodd Dr Paul Livingstone fod y trefniadau llywodraethu wedi arwain at symud o raglen y 1980au yr oedd y llywodraeth yn rhan ganolog ohoni i raglen a oedd yn cael ei harwain gan ffermwyr. Ar hyn o bryd y ffermwyr sy'n rheoli ac yn gweinyddu'r rhaglen, a hwy sy'n pennu'r polisi iawndal a rheoli symudiadau. Ffermwyr sy'n darparu'r cyllid ar gyfer profi gwartheg ac iawndal, ac nid yw'r llywodraeth yn cyfrannu dim. Codir ardoll ar bob buwch sy'n cael ei lladd er mwyn cyfrannu \$11.50 i'r rhaglen brofi a digolledu. Mae'r diwydiant godro hefyd yn cyfrannu tua 1 y cant am bob cilogram o solidau llaeth. Mae arian y llywodraeth yn cyfrif am hanner y rhaglen bywyd gwyllt (tua \$27 miliwn o'r \$55 miliwn). Dywedodd Dr Paul Livingstone fod 85 y cant o ffermwyr yn fodlon ar y rhaglen (cynhelir arolwg ffermwyr bob dwy flynedd).⁹³

Safbwynt Llywodraeth Cymru

115. Roedd cynigion Llywodraeth Cymru yn cynnwys ailwampio aelodaeth presennol y tri bwrdd rhanbarthol dileu TB⁹⁴ i gyd-fynd â'r dull rhanbarthol newydd o reoli TB. Mae'r Byrddau yn cynnwys ffermwyr, milfeddygon, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, arwerthwyr, adrannau safonau masnach y cynghorau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'r byrddau hyn yn gweithredu ochr yn ochr â Bwrdd y Rhaglen Dileu TB, dan gadeiryddiaeth yr Athro Christianne Glossop.

116. Mewn ymateb i gwestiwn am yr angen am gyfranogiad a pherchnogaeth y rhaglen dileu a chymariaethau â Seland Newydd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

⁹¹ www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/daera/bovine-tuberculosis-eradication-strategy.pdf

⁹² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016

⁹³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 64

⁹⁴

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/bovinetberadication/structure/>

“Well, we haven’t got a levy, which I know they had in New Zealand. So, they held the purse strings, which I think always focuses the mind. But it’s really important that we work with industry members, going forward... We’ve got the eradication boards; we’ve got the programme board. It’s really important that industry members sit on there.”⁹⁵

lawndal ar gyfer gwartheg sydd wedi’u heintio

117. Mae Llywodraeth Cymru yn talu iawndal i berchenogion ar gyfer anifeiliaid a gaiff eu dinistrio drwy’r rhaglen ddileu. Yn ei phapur tystiolaeth i’r Pwyllgor dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y gwariwyd bron £150 miliwn ar hyn yn ystod y degawd diwethaf. Yn ei dogfen ymgynghori, roedd Llywodraeth Cymru yn cynnig gostwng y swm uchaf y mae’n ei dalu mewn iawndal o £15,000 i £5,000. Mae’r papur yn nodi, er mwyn paratoi ar gyfer colli (yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd) y £2-3 miliwn y mae Cymru yn ei chael ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gostwng y terfyn i £5,000 er mwyn sicrhau bod y system brisio yn fwy cynaliadwy yn ariannol.⁹⁶

118. Mewn ymateb i’r cynigion i gapio taliadau iawndal, mynegodd cynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru bryderon y gallai hyn gosbi ffermwyr sydd wedi buddsoddi’n sylweddol mewn geneteg anifeiliaid a gwella cynhyrchiant eu hanifeiliaid.⁹⁷

119. Roedd tystiolaeth gan Dr Enticott yn awgrymu y gallai capio taliadau iawndal arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd i ffermwyr. Efallai y byddant yn cael eu temtio i ddifa moch daear yn anghyfreithlon os byddant yn colli hyder yn y llywodraeth. Awgrymodd hefyd edrych ar fodolau o arfer gorau mewn mannau eraill sy’n ymgysylltu â’r gymuned ffermio. Dywedodd:

“The other thing I would say about compensation is to look at models of compensation in other countries. So, in New Zealand, the level of the compensation is set by farmers—not the specific level, but the overall level of compensation. So, farmers have said that, in certain cases, compensation shouldn’t be paid at all. In certain circumstances, 70 per cent of the value is paid. And that’s a decision made by farmers, and farmers make that decision themselves as part of the governance arrangements.”⁹⁸

120. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ffermwyr nad yw’r opsiwn o yswirio yn erbyn haint TB ar gael iddynt, sy’n golygu eu bod yn dibynnu ar y taliadau iawndal i wneud iawn am eu colledion, nad ydynt yn ystyried eu bod yn cael eu cwmpasu’n ddigonol. Dywedodd Stephen James, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru:

“Insurance companies used to insure against TB, but they stopped that many years ago, so that instrument isn’t there. Therefore, if you’re going to have—and it’s suggested in the consultation—an insurance scheme, somebody’s got to underwrite it, and that’s important.”⁹⁹

Safbwynt Llywodraeth Cymru

⁹⁵ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff

⁹⁶ [Rhaglen o’r newydd ar gyfer Dileu TB](#)

⁹⁷ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 202

⁹⁸ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 10 Tachwedd 2016, paragraff 194

⁹⁹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 205

121. Dywedodd yr Athro Christianne Glossop fod y system iawndal yng Nghymru yn ystyried buddsoddiadau ffermwyr llawer mwy na'r system yn Lloegr, gan ddweud:

“we’ve had a lot of meeting with stakeholders over the last few weeks while we’ve been out to consultation, including meetings where members of pedigree breed societies have been present... and not one of them mentioned that as a problem, and I was really interested then to hear the unions sort of flagging that up is a concern. Of course it’s going to affect the people who own those animals, but, overall, it is a very small number of the animals that we’re taking, and for every other animal, they’re being valued by a valuer and having a proper market value paid, as opposed to the table valuation system that, of course, is in operation in England.”¹⁰⁰

122. Mewn ymateb i sylwadau bod ffermwyr wedi buddsoddi mewn bridiau prin nad ydynt yn cael eu digolledu yn ddigonol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... I think we have to recognise that only 1 per cent of cattle valued would’ve been affected if we’d had that reduction of compensation in one year. So I think it was about 92 or 93 cattle [...] our average compensation payments are 60 per cent higher when we compare them to England.”¹⁰¹

123. Siaradodd hefyd am yr opsiwn o yswirio gwartheg yn erbyn haint TB, a dywedodd:

“Well, you know, as I say, if you look at the number of cattle that would’ve been outside that £5,000 limit, it was 93. So, it’s not a huge number. If farmers believe their cattle are worth more than that, they can insure them. I know that’s quite a new market. But, you know, there are steps that they can take to protect themselves, if they think that their cattle are worth more.”¹⁰²

Ein safbwynt ni

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed am y dulliau gwahanol o reoli rhaglenni dileu TB ar draws y byd. Mae'r rhaglenni sydd wedi bod fwyaf llwyddiannus wedi cael cyfranogiad a chefnogaeth lawn y diwydiant ffermio. Croesewir y syniad o alinio'r byrddau dileu TB yng Nghymru i gyd-fynd â'r ardaloedd risg ranbarthol. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu rhagor o fanylion am amseriad yr adolygiad arfaethedig o'r byrddau hyn fel y nodwyd yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynnig Llywodraeth Cymru i leihau'r iawndal a delir i ffermwyr am unrhyw anifeiliaid y mae'n eu lladd oherwydd TB buchol, yn benodol y newid i leihau'r terfyn ar gyfer iawndal, fesul anifail, o £15,000 i £5,000. Nodwn fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2016 er mwyn cael y pwerau i leihau iawndal i ffermwyr sydd wedi torri'r rheolau.¹⁰³ Rydym yn cefnogi'r cynigion gan Lywodraeth Cymru i ganfod ffyrdd o gysylltu'r iawndal a delir gydag arferion ffermio, bioddiogelwch a hwsmonaeth da.

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 49

¹⁰¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 46

¹⁰² Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff 48

¹⁰³ Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am argaeledd cyfyngedig yswiriant i ddiogelu ffermwyr yn achos TB sy'n golygu eu bod yn dibynnu'n drwm ar gynllun iawndal y Llywodraeth. Mae hyn yn gwneud iawn am werth yr anifail ond nid y cynhyrchiant a gollir i'r busnes. Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn talu iawndal digonol i ffermwyr. Mae hefyd yn bwysig sicrhau nad yw ffermwyr yn cael eu cosbi am fuddsoddi mewn stoc genetig i wella cynhyrchiant eu busnes.

Mae un o'r anghenion a nodwyd i gapio taliadau iawndal i ffermwyr yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd y cyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd yn dod i law pan fydd y DU yn gadael yr UE ac y bydd llai o arian ar gael ar gyfer iawndal. Er bod hyn yn risg, nid yw'n rhywbeth y gellir ei gymryd yn ganiataol. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi argymhell bod Llywodraeth y DU yn gwneud ymrwymiad i barhau i ariannu amaeth yng Nghymru ar y lefel bresennol tan ddiwedd y cyfnod Taliadau Amaethyddol Cyffredin cyfredol a'r cyfnod nesaf, hynny yw, tan 2027, yn ein hadroddiad 'Dyfodol Rheoli Tir yng Nghymru.'¹⁰⁴

Mae cyllid Ewropeaidd yn cyfrif am 15 y cant o wariant Llywodraeth Cymru ar ddileu TB buchol, felly bydd unrhyw fwlch ariannu yn y dyfodol yn anffodus ond nid yn anorchfygol. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r egwyddor o leihau'r cap ar daliadau er mwyn parhau i ddarparu gwerth am arian cyhoeddus. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i adolygu ei pholisi a sicrhau bod perchnogion yn cael iawndal rhesymol am eu gwartheg os ydynt yn cael eu lladd fel rhan o'r rhaglen i ddileu TB.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru dalu swm rhesymol o iawndal i ffermwyr am wartheg a gaiff eu lladd fel rhan o'r rhaglen i ddileu TB. Dylai'r swm hwn barhau i gael ei adolygu, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

¹⁰⁴ www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10995/cr-ld10995-w.pdf

08. Goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd

Cyflwyniad

124. Efallai y bydd effaith ar y cyllid ar gyfer rhaglenni dileu TB yn y dyfodol yng Nghymru a'r gallu i fasnachu gyda'r UE yn sgil y ffaith bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

125. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015-2016, gwariwyd £26,413,000 o dan raglen dileu TB Cymru.¹⁰⁵ Mae ariannu'r broses o gyflwyno rhaglenni TB yn elwa ar arian yr UE fel rhan o Gyfarwyddeb 77/391/EEC¹⁰⁶ a Phenderfyniad 90/424/EEC.¹⁰⁷ Roedd gwerth y cyllid hwn yn 2015-16 yn £3,990,000, sef 15.11 y cant o gyfanswm y gwariant.

126. Mae'r polisi TB buchol presennol yn cael ei lywio gan sawl darn o ddeddfwriaeth yr UE. Mae Cyfarwyddeb 77/391 yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddatblygu rhaglenni dileu. Mae'r rheolau sy'n llywodraethu masnachu anifeiliaid buchol, a'r gwarantau iechyd anifeiliaid sydd eu hangen ar gyfer masnachu gwartheg (a moch) rhwng yr Aelod-wladwriaethau, sydd i fod yn swyddogol glir o TB, i'w cael yng Nghyfarwyddeb 64/432/EEC.¹⁰⁸ Mae Cyfarwyddebau eraill, megis Cyfarwyddeb 64/433/EEC,¹⁰⁹ yn pennu gweithdrefnau a mesurau ar gyfer canfod briwiau TB ac archwiliadau post-mortem ac maent yn pennu na chaniateir i gig o anifeiliaid sydd â TB cyffredinol gael ei ddatgan yn gig sy'n addas i'w fwyta gan bobl. Gyda'i gilydd, y Cyfarwyddebau hyn yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer masnach o fewn y gymuned ac maent yn sefydlu gofynion iechyd cymaradwy i alluogi'r Aelod-wladwriaethau i fasnachu â'i gilydd.

127. Clywodd y pwyllgor y gallai statws TB Cymru gael ei ddefnyddio i gyfyngu ar fewnforion cig coch i'r farchnad sengl mewn trafodaethau sydd ar y gweill. Dywedodd Stephen James o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru:

“I would just say that, in trade negotiations going forward, we know that you can make a trade negotiation with a country, but very often it's the phytosanitary, the vet certificates and whatever that can then be the stumbling block to stop it happening... That's a risk, and I think that needs addressing.”¹¹⁰

128. Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y risgiau posibl i allu Cymru i fasnachu ar ôl gadael yr UE, yn sgil statws TB Cymru. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“Early discussions don't lead me to believe that it will be an issue. I know it is something that has been used against us, if you like, but I have had discussions around this and it's something I will keep a close eye on. We're not the only country, obviously, with TB.”¹¹¹

¹⁰⁵ www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s61280/Llythyr%20gan%20y%20Llywodraeth%20Cymru%20ar%20OTB%20Buchol%20-%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

¹⁰⁶ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/en/ALL/?uri=CELEX:31977L0391>

¹⁰⁷ www.warmwell.com/90424eec.pdf

¹⁰⁸ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=CELEX:31964L0432>

¹⁰⁹ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/en/ALL/?uri=CELEX:31964L0433>

¹¹⁰ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 8 Rhagfyr 2018, paragraff 209

¹¹¹ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 14 Rhagfyr 2016, paragraff

Ein safbwynt ni

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr effaith ar ei pholisïau i ddileu TB buchol yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r lefel is o arian sydd ar gael ar gyfer cyflwyno rhaglenni yn 15 y cant o gyfanswm y gwariant. Mae'n debygol y bydd ffynhonnell y cyllid ar gyfer profion TB a mesurau eraill yn newid o ganlyniad i hyn. Efallai hefyd y bydd effeithiau posibl ar fasnach ac allforion. Fodd bynnag, cawsom wybod bod risg isel o beidio â gallu masnachu'n rhydd gyda'r farchnad Ewropeaidd sengl yn y dyfodol oherwydd statws TB Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod ei pholisi dileu TB buchol o'r newydd yn addas i sicrhau masnachu parhaus a mynediad i'r farchnad Ewropeaidd.

Mae'n ddoeth i Lywodraeth Cymru geisio lleihau'r bil cyffredinol ar gyfer dileu TB, ond ni ddylai'r posibilrwydd na fydd cymaint o arian ar gael fod yn rheswm dros beidio â darparu iawndal rhesymol i ffermwyr. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru rannu unrhyw ddadansoddiad risg y mae wedi'i baratoi ar gyfer y rhaglen i ddileu TB ar ôl inni adael yr UE.

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cyllid a geir gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd ar gyfer profion TB buchol a mesurau eraill, yn cael ei warantu o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrwydd ar unwaith gan Lywodraeth y DU na fydd statws TB buchol gweddill y DU yn effeithio ar y gallu i barhau i fanteisio ar farchnad sengl yr UE.

Y camau nesaf

129. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r broses o gyflwyno rhaglen ddileu Llywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2018 er mwyn penderfynu i ba raddau y mae wedi cyflawni ei hamcanion.

Atodiad A – Tystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma: [Trawsgrifiad](#)

10 Tachwedd 2016

Tyst	Sefydliad
Yr Athro Rosie Woodroffe	Y Sefydliad Sŵoleg
Dr Gareth Enticott	Prifysgol Caerdydd
Dr Neil Paton	Cymdeithas Milfeddygon Prydain

8 Rhagfyr 2016

Tyst	Sefydliad
Dr Paul Livingstone	Cyn Rheolwr Ymchwil Dileu TB ac Iechyd Anifeiliaid Seland NewyddBwrdd
Dr Nick Fenwick	Undeb Amaethwyr Cymru
Dr Hazel Wright	Undeb Amaethwyr Cymru
Stephen James	Llywydd NFU Cymru
Peter Howells	NFU Cymru
James Byrne	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Lizzie Wilberforce	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Dr Malla Hovi	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

14 Rhagfyr 2016

Tyst	Sefydliad
Lesley Griffiths AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Yr Athro Christianne Glossop	Prif Swyddog Milfeddygol Cymru
Martin Williams	Pennaeth Uned Iechyd Planhigion a Biotechnoleg

26 Ionawr 2017 – Dirprwyaeth o'r pwyllgor – Aeth aelodau i Iwerddon i gwrdd â'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr (Michael Creed, Teach Dála (TD)), Prif Swyddog Milfeddygol Iwerddon a nifer o swyddogion eraill.